Cyfres yr 20fed Ganrif.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

Yr Ymofynydd.

Cyf. 4. Rhif 7.] GORPHENAF, 1904. [Pris 2c.

CYNWYSIAD.

Nodion y Mis.
Nyth y Fran.
Llith o'r Almaen.
Dwyfol Gan Dante.
Adran yr Ysgol Sul.
Gweinidog y Mynydd.
Gan Tudfathar.
Congl yr Awen.
Priodas. Marwgofion.
Manion ac Hanesion.



Y GWIRIONEDD
A'CH RHYDDHA CHWI.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

YR YMOFYNYDD.

Golygwyr—

W. JAMES, B.A., J.P., a T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.
Barddoniaeth—SARNICOL, County School, Abertillery.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2/6 y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau.

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygwyr erbyn y 10fed o bob mis, a chofnodion eraill erbyn y 15fed. Gyrer y Farddoniaeth i Sarnicol, County School Abertillery, Mon.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

TALIADAU.

E. D., Pencader; T. E., Lampeter; D. H. L., Castell-nedd; Parch. E. C. J., Bradford; Miss D., Caerdydd; J. P., St. Clears; W. J., Cefncoed; C. E., Merthyr; Parch. J. W., Typark; G. J., Castell Pencareg; D. M. J., Cwrtnewydd; E. L., Bedlinog; J. J., Llandilo; S. H., Penderyn; D. T., Penarfawr; E. J., Glynhynod; J. M., Tonypandy; J. R. T., Pontshan; Parch. T. Ll. J., Lerpwl; Mrs. R., Ysguborfawr; R. B., Aberdar; Mrs. E., Llanon; D. J., Llewele; D. T., Brynawel; Dr. J., Pentre; J. E. E., Llundain; D. M. D., Aberdar; J. J., Llandyssul; Mrs. L., Pontypridd; Mrs. E., Tregaron; S. J., Manchester; D. Ll. E., Llundain; J. D., Llwynyrheol; Parch. W. J. P., Newton; H. H., Caerfyrddin; D. J., Tydwgi; E. D., Cwmdar; J. T., Castell-draenog; D. D., Talsarn; J. L., Dowlais; Parch. J. D., Rhydychen; Miss J., Tregaron; E. H., Dihewyd; W. D., Cribyn; J. J., Tonypandy; J. G., Ammanford; A. D., Cellan; J. D., Llanwnen; E. T., Talgareg; S. D., Coedpark.

LLYFRAU CYHOEDDEDIG AC AR WERTH GAN

J. D. LEWIS, Gwasg Gomer, Llandyssul.

WEDROSIA:

Yn cynwys y Nofel Fuddugol yn Eisteddfod Mountain Ash, gan T. WEDROS EVANS. Un o'r llyfrau mwyaf difyr yn yr iaith Gymraeg.

PRIS 6c.; trwy y *Post*, 7c.

Hanes PLWYFI LLANGELER a PHENBOYR

Gan DANIEL E. JONES.

Buddugol yn Eisteddfod Drefach-Velindre, 1897. Wedi ei adolygu a'i helaethu, a chyda *Map* o'r Plwyfi.

Yn rhad trwy y *Post* am 3s. 6ch.

OLD SHOP, CRIBYN.

D. J. THOMAS,

General Draper, Grocer, Ironmonger, and Boot and Shoe Merchant

Agent for E. W. PRATT & Co., Bristol, Manufacturers of the well-known "Holdfast" Brand of Boots and Shoes.

44, King Street, Carmarthen.

T. CONWIL EVANS,

LADIES & GENTLEMEN'S TAILOR AND WOOLLEN DRAPER.

A Good Selection of Materials always in Stock.

Ardwyn, Lampeter.

TIMOTHY RICHARDS,

Ironmonger and General Merchant.

Agent for Bradbury's Sewing Machines; J. Pullar & Sons, Dye Works, Perth; J. & B. White's Portland Cement; and for all kinds of Agricultural Implements.

Enormous Stock of Hanging Papers always on hand.

CHANNING HOUSE,

High School for Girls and Unitarian Boarding School

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress : Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term : Boarders, £17 17s., including Free Laundry ; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d. ; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Hockey.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., F. Preston, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Mrs. W. A. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding.

ATHROFA PRIFYSGOL CYMRU,

ABERYSTWYTH.

(Un o Golegau Prifysgol Cymru.)

Llywydd : Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Rendel.
Prifathraw : T. F. Roberts, M.A. (Oxon.).

Cynwysa y cwrs o Addysg y parotoad angenrheidiol am Raddau yn y Celfyddydau Arts Gwyddoniaeth a Chyfraith yn Mhrifysgol Cymru a bydd hefyd yn wasanaethgar i Efrydwyr yn parotoi ar gyfer Graddau yn y Celfyddydau (Arts ac mewn Gwyddoniaeth yn Mhrifysgol Llundain, ar gyfer arholiadau yn Mhrifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt yn gystal ac astudiaeth Feddygol yno ac mewn Prifysgolion eraill.

Yn yr Adran Amaethyddol trefnir parotoad neillduol ar gyfer arholiadau y Gymdeithas Amaethyddol a Thystysgrif y Surveyors' Institution

Y Tal Blynyddol yn Adranau y Celfyddydau a Gwyddor yw £10 gydag ychydig yn rhagor am Addysg Ymarferol yn y 'Laboratories.'

Dyfarnir Ysgoloriaethau gwerth o £40 i £0 ar ddechreu 'r tymhor yn mis Medi bob blwyddyn.

Perthyn i'r Coleg, 'Gymnasium,' Cychod, Recreation Grounds,' &c.

Lletya'r Efrydwyr mewn tai yn y Dref neu yn Neuadd yr Efrydwyr—y Proff. Marshall, Warden a'r Efrydesau mewn neuadd eang Alexandra Hall, o dan arolygiaeth Miss E A. Carpenter.

Am Prospectus, a manylion neillduol ynghylch yr Adranau Normalaidd, ac Amaethyddol ac Adran yr Athrawon Canolradd, ymofyner a

T. Mortimer Green, Registrar.

T. E. JONES & CO,

(ESTABLISHED 1852)

Corn Merchants, Wholesale and Retail Grocers,

The Stores and Ffrwdwen Mills, Llandyssul.

Wheat Plant of the most modern type newly set up.

Farmers' Wheat manufactured into first class Flour.

Home Brand Flour as well as Healing's retailed at the lowest prices.

Glasgow House, Lampeter.

Men's and Boys Overcoats, Hats, Caps, Umbrellas.

D. J. EVANS,

CLOTHIER,
GENT'S MERCER, &c.

Waterproofs Hosiery, Shirts, Ties, Collars, Gloves, &c.

Suits and Single Garments made to measure.

ABERCERDYN MILLS.

. . . NOTED FOR . . .

Real Welsh Flannel, Cloths, Ladies' Dresses,

BLANKETS, &c.

APPLY TO M. EVANS & SON, OR TO

D. EVANS, Auctioneer & Valuer,
Glan Teifi, LLANDYSSUL.

CHRISTR. THOMAS & BROS. Ltd., Bristol,

Have the Leading Reputation in Wales for their

HOUSEHOLD & TOILET SOAPS.

THE FAVOURITE QUALITY IS

CHRISTR. THOMAS & BROS. LTD.,
BEST PALE

Which, as well as the other sorts, can be obtained, wholesale and retail, from

T. E. JONES & Co., LLANDYSSUL.

COMMERCE HOUSE

LAMPETER.

D. NUN DAVIES,

. . FOR . .

Millinery, Capes, Jackets, Costumes & Furs

OF THE NEWEST STYLES.

Dolbantau & Abergwen Factories

NOTED FOR THEIR

Welsh Flannel, Cloth, Blankets, &c., &c.

Prices and Patterns on application to

W. DAVIES, DOLBANTAU,
LLANFIHANGEL-AR-ARTH, CARM.

The Presbyterian Fund.

The Managers desire to give notice of the following SCHOLARSHIPS, which are open to Theological Students of all denominations:

Two Graduate Scholarships of £40 for 3 years,

with Free Instruction for the B.D. Degree of the University of Wales, tenable at the Presbyterian College, Carmarthen.

Applications must be in the hands of the Secretary before July 23rd, 1904.

For Particulars and Forms of Application apply to

G. HAROLD CLENNELL, Esq.,
Secretary to Presbyterian Fund,
6, Great James Street, Bedford Row, London, W.C.

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"*Profwch bob peth : deliwch yr hyn sydd dda.*"—*Paul.*

CYFRES NEWYDD.] GORPHENAF, 1904. [CYF. IV. RHIF 7.

NODION Y MIS.

MAE cyfarfodydd blynyddol y Gymdeithas Undodaidd yn Llundain wedi pasio, a buont yn foddion i wyntyllu diffygion a hen syniadau anwyl, a chodwyd hefyd ambell i feddylddrych tlws o'r tryblith, er ei gludo ar edyn awelon ysprydol i galonau agored Undodiaid ar hyd a lled y wlad. Ac os yw y tir yn dda, diau y gellir disgwyl ffrwyth addas yn yr amser priodol.

Oherwydd y drafodaeth ddiweddar yn nghylch "Adgyfodiad y Diafol" a gymerodd le ar dudalenau YR YMOFYNYDD, feallai fod papyr y Parch. L. P. Jacks, M.A. yn un o'r rhai mwyaf dyddorol i ddarllenwyr YR YMOFYNYDD. Am lawer o flynyddoedd mae pob Jeremi yn ein henwad yn tystio fod "esgyrn sychion" dysg a beirniadaeth dduwinyddol yn gyru yr ysprydd addolgar o'n plith, ac yn dwyn hadau marwolaeth i'n cyfundeb. Ond dywed Mr. Jacks nad ein perygl heddyw ydyw "esgyrn sychion," ond esgyrn meddal mewn duwinyddiaeth. Mae eisiau meddyliau mwy grymus a chadarn i gryfhau ein hadeilad crefyddol. "Beth all fod yn fwy egwan," medd Mr. Jacks, "na'r driniaeth bresenol o fodolaeth y drwg?" Mae y *broblem* hon wedi tynu sylw yr enwad ar dudalenau yr *Inquirer* am wythnosau. A chred Mr. Jacks nad ydym yn ddigon gwrol i ddarllen y ffeithiau. Pwy yn ein plith fedd y dewrder i wynebu arwyddocad yr athrawiaeth o Dduw mewn-fodol (*immanent God*)? Mae duwinyddiaeth yr "esgyrn meddal" yn barod i gydnabod fod Duw tufewn i'r byd—tufewn yn y pethau sydd hoffus, a thufewn yn y pethau hyn yn unig, ond nid yn y pethau sydd yn brawychu ac yn arswydo.

"Nid oes genym nac uffern na nefoedd sydd yn werth yr enw. Dyma osodiad eithafol o eiddo Mr. Jacks; ond mae yna ychydig o wirionedd ynddo. Mae uffern wedi ei hesgymuno o lechres banau ffydd yr eglwysi, ac mae Duw Cariad wedi cymeryd ei lle. Ac yn swn y syniad o Dad Nefol sydd o dragwyddoldeb hyd dragwyddoldeb yn ei hanfod yn gariad angerddol, mae cydwybod yr hil yn cael ei merwino bron i drwmgwsg, gan nad faint echryslondeb camwedd, llygredd a difaterwch. Mae y meddylddrych ardderchog o Dduw Cariad yn arwain meddyliau dynion i eithafion, ac i'r gred fod Crewr y Byd heb ddigon o nerth cyfiawn i gospi pechaduriaid; ac y gellir trwy ddichell ruthro i mewn trwy y pyrth i'r nefoedd a'n heneidiau yn ddylif ysgeler o bechodau.

Nid gwiw llechu yn ormodol yn mhydewau pechod dan gysgod y syniad o Dduw Cariad. Mae Duw yn gariad, nid oes dim yn fwy eglur ac anwyl, ond mae hefyd yn Dduw i'w ofni a'i arswydo. Mae nefoedd ogoneddus ac uffern arswydus yn ffeithiau anwadadwy yn mywydau dynion—yn ol tystiolaeth Mr. Jacks, ac yn ol tystiolaeth pob gwr craffus. Etifeddir pechodau y tadau a'r mamau gan y plant. Mae yn syniad ofnadwy, fod y plant yn dioddef am bechod y tadau, ond nis gellir am foment amheu ei wirionedd. Mae dynolryw yn un gydbleth sydd yn ymddibynu ar ei gilydd, ac mae heintiau a chlefydau, moesau da a drwg, yn ymledu dros fywydau personau ac yn etifeddol. Nodweddir bywyd gan elfenau arswydus a thorcalonus yn ogystal a chan elfenau cariadus. Gwnaeth Duw y rhai hyn yn bosibl, ac mae dyn yn eu gwireddu. Dylid gwynebu ffeithiau bywyd ac ystyried gyda F. P. Cobbe fod yn rhaid i bob enaid adferir o bechod a gwae adnabod ei Galfaria.

Pwnc sydd yn aflonyddu ar ein brodyr yn Lloegr ydyw ein Colegau. Mae awdurdodau ein Coleg yn Manceinion, ar gais yr hen fyfyrwyr, yn dathlu haner can' mlwyddiant sefydliad y Coleg trwy adeiladu neuadd gyfleus i'r Coleg a'r myfyrwyr yn Victoria Park. Cyn gellir cwblhau y cynllun, bydd y draul yn fawr, ac mae llawer i Undodwr o'r farn y dylasid uno ein Coleg yn Manceinion a'r Coleg yn Rhydychen, am ei fod yn wastraff ar feddianau y cyfundeb i gynal dau sefydliad anibynol o'r fath i'r ychydig fyfyrwyr sydd yn pasio trwyddiant yn flynyddol. Mae manteision nas gellir eu cael mewn un dref arall yn y deyrnas yn Rhydychen, hen gartref dysg a gwybodaeth. Ond mae yna hefyd fanteision yn Manceinion. Mae y dref fawr hon yn hynod fel magwrfa syniadau newyddion; yno gellir cael cipolwg ar y natur ddynol yn ei haneirif agweddau, ac y mae yn ganolbwynt ein heglwysi Undodaidd yn Swydd Lancaster. Mae ein Coleg yn Rhydychen yn chwifio y faner o ysgol rydd mewn duwin-

yddiaeth ar binacl uchelaf ei fodolaeth ; mae y Coleg yn Manceinion yn tystiolaethu mai amcan ei fodolaeth ydyw parotoi gweinidogion i'r eglwysi Undodaidd—yr Eglwysi Rhydd.

Sut i gymodi yr amcanion a mwynhau y manteision ydyw y cwestiwn. Mae uniad y ddau Goleg yn anymunol ac yn anmhosibl. Eto da fyddai i'r myfyrwyr o Manceinion gael treulio blwyddyn neu ddwy o'u gyrfa golegawl yn Rhydychen, er trwytho eu meddyliau a'r dduwinyddiaeth a'r ddysg oreu ellir eu sicrhau, a drachtio i fewn yr ysbryd henafol a myfyrdodol lochesa oddiamgylch conglau canol-oesol yr hen golegau. Da hefyd fyddai i fyfyrwyr Rhydychen ymneillduo o'u llyfrgelloedd a dyfod i gyffyrddiad uniongyrchol ag ysgydwad egniol bywyd sydd mor amlwg yn awyrgylch fasnachol Manceinion, ac i ddeall amcanion trigolion tref sydd yn ystod y ganrif ddiweddaf wedi enwogi ei hun am ei delfrydau ymarferol a'i thrafnidiaeth fydol.

Mae y gredo a adnabyddir fel Credo Sant Athanasius yn aflonyddu ar feddyliau diwylliedig a chalonau cariadus enwogion Eglwys Lloegr, yn enwedig felly yr erthyglau damniol ynddi. Gorfodir i'r offeiriad adrodd y gredo ofnadwy hon bedair ar ddeg o weithiau yn y flwyddyn yn yr addoliad cyhoeddus. Ac mae adrodd ffurfeiriau gynhwysant dybiau tywyll y canol oesau, yn y rhai nis gall neb gredu heddyw, yn drwyadl, yn boen i bob dyn ystyriol. Mae yr hyn a adnabyddir fel yr adranau damniol yn y gredo yn darllen fel y canlyn :—"Pwy bynag a fyno fod yn gadwedig : o flaen dim rhaid iddo gynal y ffydd Gatholig. Yr hon Ffydd, oni's ceidw pob dyn yn gyfan ac yn ddihalogedig : diamheu y collir ef yn dragywydd. Hon yw y Ffydd Gatholig : yr hon pwy bynag a'r nis cretto yn ffyddon, ni all efe fod yn gadwedig."

Mae y cwestiwn wedi ei benderfynu gan lys esgobol York, ei bod yn ddoeth i beidio adrodd y gredo hon gan y cynulleidfaoedd, er fod y gredo yn un werthfawr am ei bod yn cynhwys gwirioneddau mwyaf pwysig y ffydd Gristionogol. Mae Archesgob Canterbury hefyd wedi mynegu ei farn ei fod mewn cyflawn gydymdeimlad a'r penderfyniad hwn, ac fod pwyllgor o lys esgobol Canterbury i gael ei apwyntio i gymeryd y mater mewn llaw. Felly gellir disgwyl, yn nghyflawnder yr amser, y bydd i Gredo Sant Athanasius syrthio yn ddistaw i waelod y gist dduwinyddol, a'i hastudio fel *fossil*, er canfod y llwybrau ar hyd y rhai y crwydrodd y meddwl dynol yn ei ymchwiliadau am y gwirionedd. Da iawn ; yn raddol, ond yn sicr mae y goleuni yn treiddio drwy hyd yn nod y caddug duwinyddol.

Bu farw Syr H. M. Stanley ar yr 11eg o fis Mai. Ei enw pan yn blentyn oedd John Rowlands, a ganwyd ef yn agos i Ddinbych yn Ngogledd Cymru yn 1840. Yr oedd ei rieni yn dlawd, ac ar ol i'r plentyn dreulio rhai blynyddau yn ysgol y tlotty, gweithiodd ei ffordd ar fwrdd llong i America i agor cragen bywyd drosto ei hun. Yn New Orleans aeth i swyddfa masnachwr o'r enw Stanley, ac ar gais ei feistr mabwysiadodd yr enw, Henry Morton Stanley, o dan y ddealldwriaeth y byddai rhan o gyfoeth ei feistr yn disgyn iddo. Ond bu farw Stanley heb un 'wyllys, a thaflwyd y dyn ieuanc ar y byd unwaith eto.

Ar ol helyntion celyd yn nglŷn a'r Rhyfel Cartrefol, dechreuodd ymohebu â'r newyddiaduron, a chanfyddodd Mr. Gordon Bennett, o'r *New York Herald*, gymhwysderau ardderchog ynddo, a danfonodd ef allan fel gohebydd neillduol i Abyssynia, ac wedi hyny i chwilio am Dr. Livingstone yn nghanolbarth Affrica. Drwy ei wroldeb a'i benderfyniad di-ildio llwyddodd Stanley yn y gwaith ; a bu ar droion yn Affrica wedi hyny, a thynodd sylw y byd at y cyfandir anadnabyddus ond cyfoethog, a chryd gwareiddiad yr hen oesau. Ac nis gellir heddyw ysgrifenu hanes Affrica heb goffau am y rhan gymerodd Stanley yn ei ddarganfyddiad. Yr oedd gan Stanley lawer o gyfeillion, a llawer o feirniaid llym a gondemnient ei amcanion a'r moddion ddefnyddiai er eu cyrhaedd. Tystiai ei feirniaid ei fod wedi ymddwyn yn greulawn at drigolion anwar Affrica. Cyrhaedd ei amcan oedd delfryd danllyd ei fywyd, a digon tebyg na adawodd i ddim sefyll rhyngddo a'r amcan hwn. Eto mae pellder mawr rhwng tlotty yn Nghymru a'r safle gyrhaeddodd Stanley yn y byd, a'r angladd anrhydeddus yn Westminster Abbey yn mysg arwyr ac enwogion ein gwlad.

Orator fit, non nascitur. Dyma'r nod mae y Parch. Harold Ford yn gyrchu ati yn ei lyfr ardderchog ar y modd i barotoi y meddwl, a'r tafod er siarad yn ddifyfyr neu "dros y fraich." Nid oes neb yn cael ei eni yn siaradwr, ond mae naw o bob deg yn cael eu geni a chymhwysderau arbenigol yn eu meddiant er siarad yn hyawdl. Rhaid i bob baban ddatblygu ei feddwl er mwyn gafaelu mewn sylweddau a meddylddrychau ; a rhaid iddo hefyd ddysgu offerynau parablu—rhyddhau y tafod, sillebu ac acenu yn groyw. Yn yr un modd, er mwyn siarad yn hyawdl ar y llwyfan, neu yn y pwlpud, rhaid datblygu y cof, i afaelu mewn syniadau, a dysgu y tafod i dreiglo geiriau fel dylif dros y gwefusau. Yr oedd Demosthenes yn un o'r siaradwyr goreu feddai Groeg, ond ar ddechreu ei yrfa yr oedd atal dyweyd arno. Gorchfygodd Demosthenes yr anhawsdra, ac mae ei enw yn berarogl heddyw yn nheml clod. Enillodd Cicero

enw iddo ei hun fel areithiwr goreu Rhufain, ond yr oedd yn fethiant hollol fel siaradwr yn moreu ei oes. Ar ol ymdrech deg, teithiau wledydd pell er mwyn siarad o flaen campwyr areithyddol yr oes, ac ymroad difefl i'r gwaith y daeth Cicero yn areithiwr; ac mae hawl neillduol gan Cicero i dystiolaethu nad ydyw medr siarad yn rodd etifeddol, ond yn ffrwyth ymdrech. Teitl y llyfr gyfeirir ato ydyw: "*The Art of Extempore Speaking*," a'i bris ydyw haner coron.

NYTH Y FRAN.*

Pan yn sôn am ddynion mawr, arweinwyr crefyddol yr oesau, gosodwn yn fynych ochr yn ochr enwau Moses, Budha, Confucius, Zoroaster, Socrates, Paul, Mohammed, Awstin, Luther a Wesley; ond petruswn gyda golwg ar

ENW YR IESU.

Yn hytrach, ni phetruswn o gwbl ond gorfodir ni gan ryw reddf anwrthwynebol i'w osod ef mewn dosparth arbenig, a hyny wrtho ei hun. Ac nid yw ei safle neillduedig mewn hanes ond cysgod o'r unigedd a'i hamgylchai ar bob ochr yn ystod ei fywyd. Yr oedd yn unig fel na bu, feallai, neb o'i flaen, ac, o bosibl, fel na ddaw neb ar ei ol. Carai unigedd ar adegau; yr oedd yna unigedd gwirfoddol a gwrteithiai yn yr anialwch ac yn nghonglau y mynyddoedd mewn cymundeb a Duw a natur ac a'i feddyliau ei hun. Cafodd deimlo hefyd oddiwrth unigedd gorfodol oedd yn ddyledus i'w fawredd ei hun a'i gwnelai yn fod gwahanedig yn nghymdeithas ei amser. Safai ar lwyfan derchafedig o ran ei berson-

* Mae a ganlyn yn ran o bregeth a draddodwyd yn y cyfarfod blynyddol diweddaf yn Llanbedr. Nid yw ond iawn i mi gydnabod fy nyled i'r Parch. J. White Chadwick am rai awgrymiadau fuont yn ddefnyddiol i mi wrth weithio allan y rhan ddiweddaf o'r ysgrif a ymddengys yn y rhifyn nesaf.—W.J.

oliaeth, a safai wrtho ei hun yno. Mae'r hen benill hwnw, yn ei ddull chwedlonol, yn gwasanaethu fel mynegfys i'n cyfeirio at y mawredd hwnw sydd wedi rhoddi iddo enw uwchlaw pob enw arall :

"Mawr oedd Iesu yn yr arfaeth,
Mawr yn y cyfamod hedd,
Mawr yn Methlehem a Chalfaria,
Mawr yn d'od i lan o'r bedd ;
Mawr a fydd ef rhyw ddydd,
Pan ddêl Seion oll yn rhydd."

Nid yw o gwbl yn anghenrhaid

I Brofi Ei Fawredd.

Mae yn ysgrifenedig yn ei hanes ei hun, ac yn hanes y Gristionogaeth ag mae ei enw yn gysylltiedig a hi. Dysglaeriai y mawredd hwn yn ei wedd, fel y synai y torfeydd a eisteddent wrth ei draed ; amlygai ei hun yn yr awdurdod gyda'r hon y dysgai, rhagor na'r Ysgrifenyddion ; gwnaeth ei ddelw y fath argraff ar galonau ei ddysgyblion fel ag i'w gwneud yn genhadwyr parod ei efengyl, ac yn wroniaid ffydd y croeshoeliedig ar faesydd anhynaws a digroesaw yr ymerodraeth Rufeinig ; ac mae gwarogaeth y byd gwareiddiedig heddyw yn dyst i rin y mawredd hwnw a lwydda yn y diwedd, ni a gredwn, i dori i lawr bob gwrthglawdd ar ei ffordd i galonau dynion. Mae y mawredd yna, ond peth arall ydyw cyfrif am dano ; ac, i'm tyb i, mae gormod o duedd erioed wedi ei dangos, a gormod o egni wedi ei wastio gan y byd Cristionogol i benderfynu y *broblem* yma, ac i osod i fynu rhyw Grist ddamcaniaethol a duwinyddol yn lle y Crist dynol ac ymarferol sydd yn fara'r bywyd i'r byd. Dechreuodd ysgrifenwyr y Testament Newydd ar y gwaith o esponio y dirgelwch, a hyny mewn amrywiol ffyrdd ; ni chyttunant hwy mwy na'u holynwyr yn hanes dadleuon duwinyddol yr eglwys o'r dechreu hyd yn awr. Ymleddir yr un frwydr heddyw, a chlywir adsain y ddadl ar

Yr Enedigaeth Wyrthiol

—y *virgin birth*—fel yr ymleddir hi yn llenyddiaeth gyfnodol yr oes. Ond brwydr ydyw hi, nad yw wedi ei henill na'i cholli eto ; ac yn debyg mai felly y bydd yn y dyfodol ; ac erys Iesu yn anesponiadwy, yn *broblem*, fel, mewn gair, mae pob dyn arall yn *broblem*, ac yn neillduol pob dyn mawr, i'r oesau sefyll uwchben ei ddirgelwch. Ond gan nad beth am yr esponiad, mae y mawredd yn aros, ac wrth wraidd yr unigedd y cyfeiriwyd ato yn barod, fel yn nodweddu ei fywyd ar y ddaear, ac hefyd, o ran hyny, ei fywyd mewn hanes, oddiar ei groeshoeliad hyd y dydd hwn. Dyma'r elfen a'i gwnaeth yn gymeriad arbenig a gwahanedig yn mywyd ei amser—mawredd personoliaeth, a'i gosododd ar *blatform* o'i eiddo ei hun uwchlaw diwygwyr ac iachawdwyr yr holl oesau ; mawredd cariter "yr hwn ni wnaeth bechod, ac ni chaed twyll yn ei enau" ;

Mawredd y Prophwyd

a dreiddiai o dan y wyneb hyd at sylweddau mawrion crefydd ydynt "yr un ddoe, heddyw, ac yn dragywydd" ; ac yn sylweddoliad ei amcanion, a "ddiystyrodd waradwydd, ac a fu yn ufudd hyd angeu, ie, angeu'r groes." Ond fel eraill, ag mae eu cenhadaeth i'r byd hwn i wasanaethu ac i fendithio, dioddefodd y penyd a esyd y byd yn fynych ar y rhai ydynt yn fwyaf cymhwys i wasanaethu ac i gyfranu y gwasanaeth mwyaf a goreu. Mae'r hen eiriau yn Luc—"ac a'i dododd ef yn y preseb, am nad oedd iddynt le yn y llety"—yn rag-gysgod tywyll o anffodion ei fywyd unig yn y byd. Dim lle iddo gael ei eni yn gysurus fel pobl eraill, ystafelloedd y gwesty wedi eu llenwi, neb yn barod i roddi i fyny ei wely er mwyn iddo ef, sydd erbyn heddyw ag iddo enw goruwch pob enw, i gael tynu ei anadliad gyntaf ar y ddaear mewn tawelwch ac esmwythyd.

"ALLAN" OEDD EI LE EF,

yn y preseb gyda'r anifail, fel ag y bu hi wedi hyny—allan o Nazareth, a'i gyd-drefwyr yn sychedu am ei waed ; allan o'r synagog gyda melldithion awdurdodau mawrion yr Eglwys Iuddewig yn ei ddylyn ; allan yn y nos, gyda gwlith Gethsemane yn gorphwys yn drwm ar ei fantell, a'i ddysgyblion yn cysgu, er iddo geisio ganddynt wylied, yn unig yn yr awr hono, wedi'n, heb gymdeithas ; allan o ddadleudy Pilat i heolydd Jerusalem a'r goron ddrain ar ei ben, a'r *mob* yn croch-waeddi "Croeshoelier Ef!" ; allan ar ffordd y groes i

FRYNCYN MOEL CALFARIA

i farw o dan ddwylaw ei elynion, ac i farw fel pe byddai Duw a dynion wedi ei adael yn unig wrtho ei hun. Gyda'r dechreuad yna—allan o'r llety i orweddfa yr anifail—nid yw ond naturiol i ddisgwyl mai "at ei eiddo ei hun y daeth, a'i eiddo ei hun nis derbyniasant ef." Mae hen ddywediad i'w gael mai gelynion dyn yw ei dylwyth ei hun. Yr oedd hyd yn nod ei deulu yn ei erbyn—ei fam ag mae Cristionogaeth ddirywiedig yr eglwys wedi gwneud cymaint o honi, a'i frodyr ei hun allan o gydymdeimlad ag ef. Pan y gwnaeth ei apêl at ei genedl trwy ei weinidogaeth gyhoeddus, nid oeddent yn ei ddeall, ac ni cheisient ei ddeall. Iesu o Nazareth yn cymeryd arno ei fod yn ddyn mawr, yn arweinydd y bobl, ac yn rywfath o Rabbi Iuddewig, efylchiad gwael o'r *genuine article* a gynyrchid yn Ngholegau Jerusalem—yr oedd y peth allan o'r cwestiwn. 'Doedd hi yr un help iddo chwaith ei fod wedi ei fagu, os nad wedi ei eni, yn Galilea—Galilea y Cenhedloedd oddiar amser Esaiah beth bynag, gyda rhyw *mongrel population*, fel y dywed Keim, lle yr oedd holl yspwriel y Cenhedloedd am oesau wedi eu *dumpo*—yn un pentwr o hagrwch ieithyddol ac o aflendid cymdeithasol. Iesu o Nazareth oedd e' hefyd, ac yr oedd hyny yn waeth na bod yn Galilead. "A ddichon dim da ddyfod o Nazareth?" "Dim da"—

RHYW DDIFFAETHWCH DIGYNYRCH

o ran unryw ffrwyth,—meddyliol, moesol, ac ysprydol. Yr *idea* fod y Messiah Mawr, sylwedd gobeithion dysglaeriaf y genedl yn hanu o le felly! Fu erioed y fath ffolineb! Meddyliwch wedi'n am Rabbi Iuddewig gydag unryw *bretence* i fod i fyny a'r safon o barchusrwydd y dylai ymgynyg ati, yn dewis deuddeg o ganlynwyr o blith gwehilion cymdeithas — pysgotwyr tlodion Môr Galilea, yn myned oddiamgylch yn eu cwmpeini trwy y wlad fel *gang o* grwydriaid, yn byw ar garedigrwydd eraill gan mwyaf, ac yn cymdeithasu gyda phublicanod a phechaduriaid lle bynag yr ai. Ac yn waeth na'r cwbl, yn gosod ei wyneb yn erbyn sefydliadau a defodau mwyaf cysegredig eglwys ei dadau, yn siarad yn wawdus am flaenoriaid y genedl ; yn awgrymu hyd yn nod ddinystr y deml, ac yn dweyd fod y Sabbath wedi ei wneud er mwyn dyn, ac nid dyn er mwyn y Sabbath. Mawredd syml y proffwyd ieuanc o Nazareth oedd y peth diweddaf i apelio at gydymdeimlad ei genedl, gyda'r canlyniad iddo gael ei orfodi i rodio'r

LLWYBR UNIG A GWAEDLYD

hwnw ag mae dadblygiad dynoliaeth yn ofyn oddiwrth y rhai ydynt yn foddlon ymroddi i'w gwasanaeth. "At ei eiddo ei hun y daeth, a'i eiddo ei hun nis derbyniasant ef." Ac yr oedd ei wrthodiad mor llwyr, fel mae genym y desgrifiad hwnw o hono yn un o'r cyffyrddiadau tyner a barddonol hyny ydynt mor aml yn goleuo i fyny ffurfafen lenyddol yr Ysgrythyrau—"Mae ffauau gan y llwynogod, a chan ehediaid y nefoedd nythod, ond gan Fab y dyn nid oes le i roddi ei ben i lawr." Yr oedd wedi ei eni o rieni tlodion mewn lle tlawd

a dirmygedig, wedi byw am ddeng mlynedd ar hugain yn debyg mewn llafur caled, trwy chwys ei wyneb, er hyny, yn cael digonedd o fara ; ond yn awr yn wrthrych drwgdybiaeth gan ei deulu ei hun, ac o bosibl wedi ei adael ganddynt, wedi syrthio i ddygn dlodi, yn ddiymgeledd, heb le i roddi ei ben i lawr. Ond, diolch fod yma ryw

LYGEDYN O OLEUNI

yn treiddio trwy dywyllwch ei ddarostyngiad, ryw ddafn o dosturi a chydymdeimlad yn cael ei dywallt i gwpan chwerw ei alaeth. Mae wedi bod yn *broblem* ambell waith, pan nad ydym yn darllen y Testament Newydd mor fanwl ag y dylem, sut yr oedd Iesu a'i ddisgyblion yn byw, yn mha sut yr oeddent yn cael eu bywioliaeth. Dywedir fod y gôd wedi ei ymddiried i Judas Iscariot fel trysorydd y cwmni bychan, ond atolwg o ba le y daethai y trysor? Gadewch i ni ddarllen. "A bu wedi hyny iddo fyned trwy bob dinas a thref gan bregethu ac efengylu teyrnas Dduw, a'r deuddeg gydag ef. A gwragedd rai, Mair, yr hon a elwid Magdalen ; Joanna, gwraig Chusa, goruchwyliwr Herod, a Susana, y rhai oedd yn gweini iddo o'r pethau oedd ganddynt." Dyna'r *secret* allan. Yr oedd yn byw ar *charity*

RHYW YCHYDIG O FENYWOD.

Yn ddiweddar, mae benyw wedi dechreu cael ei hawliau mewn cymdeithas ; ond mae wedi bod erioed yn ddiwyd gyda'i dyledswyddau. Mae wedi bod yn *gweini* heb gwyno trwy y canrifoedd a'r cyfnodau ar angenion ei phlant. "*A ministering angel, thou*," meddai Syr Walter Scott, a bendigedig fyddo ei henw. Mae yn anrhydedd i'r rhyw fenywaidd am byth fod "tywysog ein hiachawdwriaeth" ni wedi bod yn byw ar eu *charity*, pan oedd pawb eraill wedi ei adael heb le i roddi ei ben i lawr. Byw ar *charity*—dyna gyfran cymwynaswr mwyaf dyniolaeth pan ar y ddaear, tra mae gwarogaeth, cyfoeth, urddas, celf a llenyddiaeth y byd wrth ei draed heddyw. Mae yn aros yn un o ryfeddodau mwyaf trefn Duw yn y byd hwn fod derchafiad ac iachawdwriaeth dynion yn cael eu sicrhau trwy ddarostyngiad, dioddefaint a dagrau ei blant mwyaf dewisol. Mae y diweddar Broffeswr Bruce o Glasgow yn ei lyfr a elwir "*With Open Face*," yn rhoddi gwedd arall ar eiriau y drydedd adnod wyf wedi gyfeirio ati yn barod. Nid yw yn teimlo fod yr esponiad cyffredin yn foddhaol sydd yn gwneud y geiriau yn ddesgrifiad o dlodi tymhorol ac o unigedd yr Iesu yn nghanol cymdeithas ei amser—heb gartref i'w groesawi yn un man, na lle i roddi ei ben i lawr, tra mae gan y llwynogod ffauau, ac adar y nefoedd nythod. Cyfeiria'r geiriau, meddai ef, yn hytrach at ei safle ysprydol, fel un nad oedd ganddo gartref i'w enaid, dim lle i roddi ei ben i lawr yn mywyd crefyddol ei oes. Mae'r awgrymiad yn un hapus a ffrwythlawn. Mor wirioneddol y rhodiai'r Iesu oddiamgylch, fel

ESTRON MEWN YSTYR GREFYDDOL,

yn nghanol sefydliadau, arferion, defodau ac arddangosiadau crefyddol ei amser. Mor ddieithr oedd ei grefydd syml ef o gariad at Dduw ac at ddyn, ei freuddwyd euraidd o deyrnas Dduw yn cymeryd meddiant o galonau dynion, ei *ideal* o fywyd fel cyfleusdra i gariad, i wasanaeth ac hunanaberth—mor ddieithr oedd y pethau hyn yn nghanol traddodiadau ffurfiol eglwys ei genedl. 'Doedd dim lle iddo osod ei ben i lawr yn esmwyth ar fynwes nac eglwys na theml, na synagog, na chredo, na chartref, na chymdeithas ; "allan" oedd ei le, o dan boethder yr haul, at drugaredd yr ystorm, yn grwydryn diymgeledd ar lwybrau diffaeth a disathr anialwch moesol y byd hwn.

(*I barhau yn y nesaf.*)

LLITH O'R ALMAEN.

PARHAD.

Yn wahanol i'r Iuddewon, mae y benywod yma gan mwyaf ar y llawr, tra y rhaid i'r gwrywod, yn rhesymol ddigon, i esgyn i'r llofft; er hyny, gwelir ambell un, fel 'deryn du, ar y llawr. Heblaw y gwasanaeth ar y Sul cynhelir dosparth Beiblaidd bob nos Fercher yn ystod y flwyddyn bron, oddieithr am dipyn o amser cyn y Pasg, a hyny mewn hen gapel, perthynol, 'rwy'n meddwl, i un o'r eglwysi. Yn ystod yr amser a nodais (cyn y Pasg) cymerir lle y dosparth Beiblaidd gan wasanaeth yn yr eglwysi eu hunain am wyth o'r gloch nos Fercher. Hefyd, ac yn llawer mwy pwysig na'r olaf, cynelir gwasanaethau neillduol ar hyd y prif wyliau, sef y Nadolig, y Pasg a'r Sulgwyn. Cedwir y gwyliau yma nid yn unig ar hyd y dydd y syrthiant ond am ddau, dri neu hyd yn nod bedwar diwrnod, yn enwedig y Nadolig a'r Pasg; fel enghraifft, dechreuid cadw y Pasg diweddaf prydnawn dydd Iau cyn y Groglith a chedwid dau wasanaeth bob dydd (oddieithr dydd Sadwrn) yn gyson hyd dydd Mawrth. I'r Almaenwr mae gwyliau yr Eglwys yn llawer mwy pwysig na'r dydd Sabbath; nid yw yn edrych dim ar wneud llawer o bethau, angenrheidiol a diangenrhaid, yn wir, unrhyw beth bron ar y Sul, a rho brydnawn dydd Sul fel rheol i rodiana a phlesera; ond ar y gwyliau uchod ystyria hi, os nad yn bechadurus, beth bynag yn anweddus, i wneud y pethau mwyaf diddrwg, megys astudio, &c. Gwelir effaith y parch yma tuag at, a'r gred am, y gwyliau Eglwysig yn y cynulliadau yn yr Eglwysi eu hunain. Fynychaf nis gellir dweyd eu bod yn rhy lawn ar y Sul, ond ar yr adegau hyn maent yn llawn hyd y drysau a llawer yn gorfod sefyll yn fynych; â llawer i'r cwrdd yn awr nad ydynt ond anfynych iawn os byth yn myn'd yn agos ar y Sul; fel gyda ni yn Nghymru gwelir llawer yn y Cwrdd Cwarter na feddyliant nemawr os byth am roddi eu presenoldeb yn y capel ar y Sul. Er y dywedir am drigolion Marburg a'r ardal eu bod yn bobl eglwysig (*churchy*) iawn, eto nid yw hyn yn wir yn neillduol ond am y benywod, tra y mae y mwyafrif o'r gwrywod yn ddigon diofal am eu cydgynulliad, oddieithr ar adeg y gwyliau, ac yn ymddangos fel pe credent ei bod yn ddigon iddynt i ddanfon eu gwragedd a'u plant i'w cynrychioli. Fel prawf arall fod y Nadolig a'r Pasg yn fwy sanctaidd a difrifol yn ngolwg yr Almaenwr na'r dydd Sabbath, gallaf ddweyd fod y masnachdai o bob math yn gauedig drwy y dydd ar y dyddiau uchod, tra y maent yn agored o un-ar-ddeg i ddau bob dydd Sul, a thrwy y dydd am dri Sul cyn y Nadolig, er rhoddi mantais i bobl y wlad nad oes ganddynt amser yn ystod yr wythnos i bwrcasu eu hangenion ar gyfer yr wyl gyfagos. Yn ystod y gwyliau ceir un gwasanaeth neu ragor yn arbenigol i'r plant, y rhai gymerant ran trwy ganu ac adrodd rhanau o'r Ysgrythyrau; ac ar adeg y Nadolig ceir un neu ddwy Goeden Nadolig yn mhob Eglwys, wedi eu gwisgo i fyny ac yn cael eu goleuo â chanhwyllau yn ystod y gwasanaeth; credaf hefyd fod rhoddion i blant y tlodion yn cael eu rhanu oddiarnynt.

Gadewch i mi yn awr i ddweyd ychydig eiriau ar seremoniau yr eglwys yn yr Almaen; ac i ddechreu gyda'r un sydd yn d'od i gwrdd a dyn gyntaf wedi glanio ar y ddaear yma, ni a gymerwn i ystyriaeth yn mlaenaf y seremoni o fedydd. Bedyddir pob plentyn yn ddieithriad bron yn yr Almaen a hyny cyn y byddo ar yr hwyaf ond ychydig fisoedd oed. Am-

rywia'r oedran ar ba un y bedyddir y plant i raddau ; ca rhai eu bedyddio pan yn ychydig ddiwrnodau oed, ereill pan yn ychydig wythnosau ac ereill eto pan yn ychydig fisoedd ; ond yr amser cyffredin yw o wythnos i naw diwrnod oed. Cyflawnir y seremoni gan yr offeiriad naill ai yn yr eglwys, neu, os bydd yn rhy oer i'r mamau a'r plant fyned i'r eglwys, yn y Vicerdy ; anaml iawn y cymer le yn nghartref y plant, am fod amryw i'w bedyddio gyda'u gilydd fynychaf, ac am ei bod felly yn fwy cyfleus i'r offeiriad i'w bedyddio yn yr un man na myned o amgylch i bob tŷ. Fe welir felly nad oes yn Eglwys Brotestanaidd yr Almaen ddim Bedyddwyr ; mae gan yr enwad hwnw, er hyny, rai cynulleidfaoedd yn y wlad, ond ychydig a gwanaidd ydynt, ac nid oes un yma yn Marburg. I ddilyn y plentyn i fyny a chyfyngu ein hunain yn benaf i'w gynydd a'i ddadblygiad crefyddol, gwelwn ef yn myn'd i'r ysgol ddyddiol lle y ca ei athrawiaethu yn nghrefydd ac yn nhraddodiadau ei dadau. Ac yma gwelwn unwaith eto y cysylltiad agos rhwng yr Eglwys ar Wladwriaeth yn yr Ymerodraeth Almaenaidd ; yn yr ysgolion ceir athraw yn arbenigol er mwyn dysgu crefydd i'r plant Protestanaidd, ac yn wir dygir hwy i fyny oddiar y dechreu ar gyfer bod yn aelodau o'r Eglwys Wladol, tra y mae hawl gan yr offeiriad Pabyddol a'r Rabbi Iuddewig i fyned i'r ysgolion ar oriau neillduol i roddi addysg grefyddol i'r plant hyny a berthynant i'w cyfundebau hwy. Yn y rhanau hyny o'r wlad lle mae'r Pabyddion yn y mwyafrif tebyg fod ganddynt hwy yr un hawl i gael athraw arbenig i ddysgu eu crefydd ag sydd gan y Protestaniaid, am eu bod yn y mwyafrif mawr, yn y rhanbarth hwnw.

A yr addysg grefyddol hon yn yr ysgolion yn mlaen nes y bo'r plentyn yn 14 oed ; yna daw adeg bwysig yn ei hanes. Yr amgylchiad pwysig yma y cyfeiriaf ato yw ei dderbyniad i'r Eglwys fel un o'i haelodau—ei gonffirmasiwn fel y dywedir yn gyffredin. Conffirmir y plant oll yn yr Almaen yn ddieithriad, yn yr Eglwys y perthynant iddi, pan fônt yn y 14eg blwyddyn o'u hoedran ; ymddengys hyn yn hynod i ni fel Undodiaid sydd wedi ein dwyn i fyny a meddyliau mor wahanol ar y pwnc. Am gryn amser cyn y conffirmasiwn, a gymer le yma y dydd Sul cyntaf ar ol y Pasg, cynalia yr offeiriaid ddosparthiadau yn yr eglwysi i addysgu y bobl ieuainc yn ystyr y cymundeb ac yn eu dyledswyddau a'u breintiau fel aelodau o'r eglwys, ac yn ystod yr wythnos cyn y Sul a nodais cynhelir gwasanaeth bron bob dydd er parotoi y *Konfirmanden* (fel y gelwir hwy) ar gyfer yr ordinhad bwysig sydd yn eu haros. Ar y Sul a enwyd mae yr eglwysi yn llawn ; cedwir lle neillduol i'r plant sydd i gael eu derbyn yn aelodau ac i'w rhieni. Ant o flaen yr offeiriad yn ddau a dau, neu ddwy a dwy, penliniant o'i flaen a rhydd ef ei ddwylaw ar eu penau ac a'u bendithia ; ac wele, maent yn aelodau o Eglwys Crist ar y ddaear. Ar y Sul hwn ac hefyd yn ystod yr wythnos cyn hyny â y merched (sydd i gael eu conffirmo) i'r eglwys heb eu hetiau ; paham y gwneir hyn neu i ba ddaioni y mae, nis gwn. Cyfrenir Swper yr Arglwydd bob Sul yn yr Almaen ar adegau neillduol o'r flwyddyn ond nid oes disgwyliad i bawb fyned iddo bob Sul ; yr arferiad gyffredin yw myned ddwy neu dair gwaith (neu hyd yn nod dim ond un waith) y flwyddyn, a hyny fynychaf ar adeg y gwyliau, h.y., y Nadolig, y Pasg, &c.

Fel y sylwais eisoes, gwahaniaetha yr Eglwys Lutheraidd a'r Eglwys Ddiwygiedig yn eu golygiadau ar y Cymun ac adlewyrchir y gwahaniaeth hwn i raddau yn y modd o gyfranogi o hono. Fel rheol bydd dau offeiriad yn cymeryd rhan yn yr ordinhad ; safant mewn man neillduol yn yr eglwys ac â y cymunwyr o'u blaen yn ddau a dau neu yn bedwar a phedwar. Yn yr Eglwys Lutheraidd ânt ar eu gliniau o flaen yr offeiriaid, y rhai a roddant iddynt y bara ac yna y gwin, gan ddweyd

wrth ben pob rhes rywbeth yn debyg i hyn: Hwn yw corph, hwn yw gwaed yr Arglwydd Iesu a dywalltwyd er maddeuant pechodau. Yn yr Eglwys Ddiwygiedig ni phenlinir; yn unig gwneir *bow* i'r offeiriaid, oddiwrth un o'r rhai y derbynir y bara ac oddiwrth y llall y gwin. Dywedir hefyd, 'rwy'n meddwl, yr un geiriau ag yn yr Eglwys Lutheraidd. Y seremoni nesaf yn mywyd dyn (ac wrth ddweyd "dyn" meddyliaf "ddynes" hefyd) yn ei yrfa tuag i fyny a'r hon mae gan yr Eglwys i wneud yw priodas. Buasai yn ddyddorol i ddesgrifio yr arferion sydd yn llywodraethu tymor carwriaeth yn yr Almaen, ond rhaid gomedd yn y fan hon: feallai, er hyny, y maddeua fy narllenwyr i mi, ac yn enwedig y merched ieuainc am ei fod o fwy dyddordeb iddynt hwy, am gyfodi un arferiad a fu yn gyffredin, os nad yw eto, yn nglyn a'r tymhor hwn. Pan fyddai merch ifanc wedi derbyn cynyg i briodi oddiwrth ei chariad (neu rywun arall) ond ei bod hi yn methu teimlo ar ei chalon i'w dderbyn, danfonai fel arwydd o'i gwrthodiad fasged, neu feallai yn fwy cywir "whintell," i'r gwrthodedig. Mor gyffredin oedd yr arferiad hon fel mae y frawddeg *einen korb bekommen* (i dderbyn basged) wedi dod i feddwl "cael gwrthodiad." Rhaid i bwy bynag a fyn addoli Hymen yn yr Almaen fyned yn gyntaf trwy seremoni wladol o flaen y cofrestrydd, yr hwn yn Marburg yw y Maer, ond gall fod yn rhyw swyddog arall, megys yr ysgolfeistr yn y pentrefi; ac yna gall, os bydd yn dewis, fyned o flaen yr offeiriad er mwyn iddo ef sancteiddio y seremoni wladol yn enw yr Eglwys. Mae y gyntaf yn hollol angenrheidiol, dewisiad ar ran y personau eu hunain yw yr ail. Mae hyn, fel y gellir yn hawdd deall, yn ergyd trwm i'r Eglwys, ac y mae yr Eglwys Babyddol yn enwedig, yn protestio llawer yn ei herbyn, ond heb fod ddim gwell. Am y gymwynas olaf a wneir i bob dyn, sef ei gladdu, nid oes ond ychydig i ddweyd, am nad yw'r arferion yma, mor bell ag y gwn, yn gwahaniaethu rhyw lawer oddiwrth yr un arferion yna. Mae un neu ddau beth, er hyny, wedi tynu fy sylw ond rhaid dweyd nad ydynt o gwbl yn arferion cyffredinol. Yr arferiad cyntaf y cyfeiriaf ato yw yr un o gymeryd yr arch yn cynwys corph yr ymadawedig i'r fynwent nos cyn yr angladd, lle y rhoddir hi mewn man cyfleus yn y capel erbyn dranoeth; a'r llall yw yr un o beidio cael gorymdaith angladdol o gwbl, ond i bob un sydd yn bwriadu cymeryd rhan yn y gladdedigaeth i fynd i'r fynwent wrtho ei hun neu gyda rhai o'i gyfeillion.

Mae genyf yn awr i ddweyd ychydig eiriau ar sefyllfa dduwinyddol yr Eglwys Brotestanaidd yn yr Almaen, neu yn hytrach yn y rhanbarth hwn o'r wlad, am fod cryn dipyn o wahaniaeth rhwng y gwahanol ranau o'r wlad a'u gilydd. Fel mae'n naturiol mewn Eglwys Wladol, rhaid i bob offeiriad lawnodi rhyw gymaint o erthyglau ffydd, ond gwahaniaetha y rhai hyn gymaint mewn gwahanol diriogaethau o'r Ymerodraeth fel mae yn anmhosibl (i mi, beth bynag) i roddi crynodeb o honynt. Gellir dweyd, er hyny, mai yn y pethau bychain ac nid yn yr hanfodion y gwahaniaethant, a'u bod ar y cyfan yn uniawngred, yn ystyr gyffredin y gair. Fodd bynag, er fod yn rhaid i bob offeiriad barablu rhyw shibboleth dduwinyddol (a gofalu na ddywed "sibboleth") cyn y caiff ei ordeinio, eto y mae yn beth dealledig yn mhlith yr awdurdodau a'r offeiriaid eu hunain y gall pob un o honynt beidio credu rhyw gymaint o'r hyn maent yn broffesu; a'r canlyniad yw fod pob un yn dewis drosto ei hun beth i gredu a beth i beidio ac yn gadael allan, yn debyg yn ei feddwl yr hyn sydd yn groes i'w gred bersonol ei hun. Mae hyn, fel y gellir yn hawdd gweled, yn ffordd fach rwydd iawn i ddod allan o'r anhawsder sydd yn awr yn dod i gwrdd a phob eglwys gyda chyffes ffydd sefydledig; ond a yw yn iawn, yn onest, sydd gwestiwn arall. Ar y cyfan gellir dweyd fod y pregethwyr yma braidd heb eithriad,

oddigerth yr aelodau hyny o'r adran dduwinyddol o'r Brifysgol sydd ar adegau yn pregethu, yn iawnffyddol fwy neu lai yn eu golygiadau duwinyddol; ond rhaid cofio ar yr un pryd nad yw y gwahaniaeth rhwng iawnffyddiaeth ag heresi yn gywir yr un fath yma ag yw yn Nghymru, dyweder. Yma deil pawb bron (beth bynag o'r bobl ddysgedig) olygiadau rhyddfrydig ar gwestiynau hanesyddol y Beibl, yn enwedig yr Hen Destament, beth bynag fydd eu golygiadau duwinyddol, tra yn myd y Kelt a'r *Anglo Saxon* mae pethau yn ddigon gwahanol, fel y gwyr ein darllenwyr yn rhy dda. Am sefyllfa dduwinyddol y bobl fel cyfangorph nis gwn ond y nesaf peth i ddim, ond credaf fod y mwyafrif o honynt hwythau hefyd, yn y rhan hon o'r wlad beth bynag, yn dal syniadau ellir ddesgrifio ar y cyfan fel yn geidwadol, er y tybiaf fod llawer yn enwedig yn mhlith y bobl ddysgedig yn bleidwyr cynydd mewn crefydd. Ni all yr offeiriaid yma, pan yn parotoi eu pregethau, gymeryd eu testynau o unrhyw ran o'r Beibl y dewisant, ond trefnir yn mlaen llaw wahanol ranau, megys o'r efengylau, yr epistolau, &c., o'r rhai y rhaid iddynt ddewis eu testynau; wrth gwrs, newidir y rhanau yma o bryd i gilydd, dyweder bob blwyddyn, fel y gwneir a'r maes llafur yn ein Hysgolion Sul. Yn naturiol, dybyna y bregeth lawer iawn ar y pregethwr, yma fel yn mhob man arall, ond yn rhanol yn ddiau oherwydd yr hyn wyf newydd nodi allan, mae mwy o unffurfiaeth yn nodweddu y pregethau yma nag sydd fel enghraifft yn ein plith ni fel enwad. Gellir dweyd mai y ffurf fwyaf cyffredin o bregeth glywir yn Marburg yw y bregeth esboniadol; cymer y pregethwr destyn yn cynwys feallai ddau neu dri "phen" a phregetha ddwy neu dair pregeth fach, gyda mwy neu lai o undeb rhyngddynt, ar y "penau" yma—ffordd lled rwydd o bregethu, fel y gall hen ddwylaw dystiolaethu. Mae'r pregethwr hefyd yn hoff iawn o adrodd (neu ddyfynu) adnodau o'r Beibl yn nghyd a phenillion o emynau a fyddant yn cyffwrdd a'r pwnc o dan sylw. Ychydig bregethau duwinyddol wyf fi wedi glywed er pan wyf yma. Fel y dywedais eisoes, gomeddir gwneud defnydd o bapyr pan yn pregethu; felly, i orchfygu'r anhawsder, dysgir y bregeth neu ei phrif bynciau ar y cof, wedi yn gyntaf ei hysgrifenu ar bapyr; ond dywedir fod rhai, yma fel yn anffodus yn mhob gwlad yn debyg, yn prynu eu pregethau neu beth bynag yn pregethu gwaith pobl ereill.

Ni fuasai'r "llith" hwn o gwbl yn gyflawn heb ychydig eiriau yn nghylch y Brifysgol, ac yn neillduol, yn nghylch yr adran dduwinyddol o honi, yr hon fe ellir dweyd yw prif atdyniad y tramorwr yma. Sefydlwyd Prifysgol Marburg yn y flwyddyn 1527 gan y *Landgraf Philipp der Grosmütige* (Philip yr hael neu'r rhwyog), llywodraethwr Hessen ar y pryd. Hi oedd y Brifysgol Brotestanaidd gyntaf sefydlwyd yn yr Almaen, er fod rhai ereill wedi troi yn Brotestanaidd cyn hyny. Mae rhai dynion bydenwog wedi bod ynddi naill ai fel myfyrwyr neu fel proffeswyr, megys y brodyr Grimm (Iago a Gwilym, neu Jakob und Wilhelm, fel eu henwir yma) ag sydd yn adnabyddus i bob bachgenyn a merch yn yr ysgol fel awdwyr (neu Iago fel awdwr) Rheol Grimm (*Grimm's Law*), ac mewn dyddiau mwy diweddar y Proff. Harnack. Rhifa'r myfyrwyr oddeutu 1,300 yn ystod tymor y gauaf ac yn agos 1,400 yn yr haf, ac o'r nifer yma mae oddeutu 150 yn efrydwyr Duwinyddiaeth; tra y rhifa'r proffeswyr a'r darlithwyr o bob math bron 100, o'r rhai y mae 12, sef 8 proffeswr a 4 darlithydd, yn perthyn i'r adran dduwinyddol. Gan nad wyf yn aelod o'r adran hon fy hun, nis gallaf yn anffodus ddweyd cymaint ag a garwn a chymaint a fyddai o ddyddordeb i'n darllenwyr am dani. Ond trwy garedigrwydd cyfaill o'r Amerig sydd wedi bod yn efrydydd duwinyddol yma am dros dair blynedd (a'r hwn gyda llaw er yn Anibynwr mewn

enw, sydd bron gymaint o Undodwr a minau mewn llawer o bethau) 'r wyf yn alluog i roi yr ychydig fanylion a ganlyn. Perthyn yr adran dduwinyddol i'r Eglwys Unedig neu Undebol a sonias am dani ar y dechreu, tra y perthyn rhai (a'r mwyafrif) o'r proffeswyr i'r Eglwys Lutheraidd a rhai i'r Eglwys Ddiwygiedig. Am eu safle dduwinyddol gellir dweyd eu bod oll bron heb eithriad yn rhyddfrydig os nad yn radicalaidd, ac yn naturiol felly mae y rhagolygon yma, fel yn y rhan fwyaf o brifysgolion yr Almaen, yn ffafriol iawn i grefydd ryddfrydig. Perthyna i'r adran dri o leiaf o ddysgedigion ag ydynt, neu a ddylent fod yn adnabyddus i bob efrydydd Duwinyddiaeth, sef y Proffeswyr Budde, Hermann a Jülicher, ac y mae eu llyfrau wedi eu cyhoeddi yn Saesneg. Adwaenir Proff. Budde yn neillduol fel awdurdod ar yr Hen Destament ac fel awdwr amryw esboniadau dysgedig ; mae y Proff. Hermann yn enwog fel ysgrifenydd ar *Dogmatics* ac *Ethics* (esgusoded y darllenydd y geiriau Saesneg, mae yn anhawdd eu cyfieithu yn gywir i'r Gymraeg, yn enwedig heb un geiriadur), tra y rhagora y Proff. Jülicher fel awdurdod ar y Testament Newydd ac fel awdwr y llyfr goreu sydd allan (felly dywed fy nghyfaill, beth bynag) ar Ddamegion yr Iesu. Heblaw y tri yma mae y Proffeswyr Achelis, Mirbt a Weiss yn adnabyddus, os nad yn fwy enwog yn yr Almaen fel awdurdodau yn eu gwahanol adranau, y cyntaf fel awdwr llyfr safonol ar *Homiletics* (sut i weithio pregethau a sut i bregethu, onide ?), Proff. Mirbt fel hanesydd yr Eglwys yn y canol oesoedd, a'r Proff. Weiss fel awdwr llyfr pwysig ar Deyrnas Dduw. Cyn dechreu ar lawn waith y weinidogaeth rhaid i'r myfyrwyr basio dwy arholiad—un wrth ymadael a'r Brifysgol wedi dybenu eu cwrs, a'r llall ddwy flynedd yn ddiweddarach wrth gael eu hordeinio. Mae y gyntaf yn hollol rydd oddiwrth gredoau ac erthyglau ffydd, ond yn yr ail rhaid dod i fyny i ofynion yr Eglwys ar gwestiynau duwinyddol. Ceir yma bob haf amryw efrydwyr duwinyddol o'r Alban ac o'r Amerig a charwn weled yn y dyfodol rai o'n myfyrwyr ni (o Rydychen, dyweder) yr dyfod drosodd ; gwnai les iddynt. Mae'r "llith" hwn eisoes wedi mynd yn hwy nag oeddwn yn fwriadu ar y dechreu, ond y mae eto lawer o bethau ar ol y carwn drin a hwynt. Rhaid tynu'r terfyn, er hyny, yn y fan hon. Pe cawn ar ddeall fod yr hyn wyf wedi ysgrifenu yn ddyddorol i'n darllenwyr ac y carent gael rhagor, mae'n bosibl y gwnawn ymdrech i foddloni eu dymuniadau.

MYFYRIWR.

"DWYFOL GÂN" DANTE.

Dyma beth newydd i ddarllenwyr YR YMOFYNYDD—cyfle i ddarllen y "Dwyfol Gân" yn iaith eu mam. Pur ddieithr i'r Cymry hyd heddyw yw Dante, er ei fod yn un o brif feirdd y byd adnabyddus, ac yn wrthrych edmygedd pawb a'i adwaenant. Gwir i'r diweddar Barch. R. H. Morgan, M.A., gyhoeddi cyfres o chwech o erthyglau arno i'r *Drysorfa* (Chwefror—Tachwedd, 1895), a dyna'r peth pwysicaf yn y Gymraeg hyd yr anturiaeth bresenol ; ond dyma'r "Divinia Commedia," prif waith y bardd, ger bron yn awr, mewn gwisg Gymreig, o law ein

cyfaill Mr. Daniel Rees, Caernarfon, Golygydd yr *Herald Cymraeg*—gorchwyl oriau hamddenol llawer blwyddyn yn ddiamheu, a dymunwn ei longyfarch ar orpheniad gorchestwaith ei fywyd. Yr oedd genym yn flaenorol ei gyfieithad o "Alcestes," un o chwareu-gerddi mwyaf dyddorol y Groegwr Euripides, ond peth bychan oedd hwnw mewn cymhariaeth i hwn. Y mae Mr. Rees yn adnabyddus i ddarllenwyr YR YMOFYNYDD fel awdwr amryw ddarnau melus mewn rhyddiaith a barddoniaeth.

Y mae Dante wedi ei gyfieithu bron i bob iaith wareiddiedig yn Ewrop. Ceir yn y Saesneg amryw gyfieithadau gwych; y mwyaf defnyddiol i'r darllenwr cyffredin feallai yw eiddo Cary neu Longfellow.

Enw'r bardd yw Dante Alighieri, ac fe'i ganwyd yn Fflorens, yn yr Eidal, yn 1265, diwedd Mai, tua naw mis cyn brwydr Beneverto, yn iaith y serddewin "dan arwydd y "Gefelliaid" (Gemini), y ser gogoneddus, beichiog o rinwedd, i'r rhai y cyfrifid fod y bardd yn ddyledus am ei athrylith ardderchog." Yn athroniaeth y serddewiniaid ystyrid y Gefelliaid yn ffafriol i lenyddiaeth ac i wyddor. Bu farw Dante yn Ravenna yn 1321, yn 56 oed; ac yn groes iawn i ddesgrifiad y serddewiniaid, blin iawn a thrafferthus fu blynyddoedd ei ymdaith ddaearol. Cafodd ei ran o anffodion ac o erledigaethau'r byd. Er hyny,'n rhyfedd iawn, try dioddefiadau ambell un yn fantais gyffredinol i'r byd. "Wnawn ni ddim achwyn," meddai Carlyle, "oblegyd trallod a helbul Dante. Pe buasai wedi cael byd esmwyth, cawsai Fflorens Arglwydd Faer llwyddianus arall, ond buasai'r byd wedi colli'r "*Divina Commedia*."

Gan ei fod yn hanu o deulu cyfrifol o ran dawn a chyfoeth ac yn preswylio yn y ddinas fwyaf oleuedig yn yr oes hono, cafodd fanteision addysg o'r fath oreu. Darllenodd y beirdd clasurol, meistrolodd elfenau rhif a mesur, talodd sylw i arluniaeth a cherddoriaeth, i athroniaeth a duwinyddiaeth, fel y gellir dywedyd ei fod yn gymharol ieuanc wedi ei lwyr drwytho ag yspryd ei oes. Ceir fod ei weithiau yn adlewyrchiad o hyn oll. Enw Dante yw'r enw mawr cyntaf ar ol nos y canol oesoedd.

Bu'r Eidal yn hir yn rhanedig i ddwy blaid—y Gwelffiaid, plaid y Pab, a'r Gibeliniaid, plaid yr Ymerawdwr—mewn gair, yr eglwysi a'r wladwriaeth, fel yn mhob dinas a phentref braidd yr oedd ymgais barhaus am oruchafiaeth. Perthynai teulu Dante i'r Gwelffiaid, ac yr oedd yntau yn gwasanaethu fel milwr yn eu plith pan orchfygasant y Gibeliniaid yn mrwydr Campaldino. Dan wasgfa amgylchiadau anwrthwynebol yr ymunodd efe a'i gyfeillion a'r blaid arall. Yn 1300 dewiswyd Dante yn un o brif lywyddion Fflorens, ac yn fuan ar ol hyny, ymranodd y Gwelffiaid yn ddwy blaid—y *Bianchi* a'r *Nari*, y gwynion a'r duon; ac fel un oedd yn caru heddwch ac yn ewyllysio lles y werin, a chyda'r bwriad syml i sicrhau heddwch parodd i arweinyddion y ddwy blaid gael eu halltudio, gyda'r canlyniad naturiol iddo wneuthur y ddwy blaid yn elynion, a'u dwyn i undeb a'u gilydd mor bell ag i allu pasio dedfryd yn ei erbyn, iddo gael ei amddifadu o'i feddianau a'i yru i alltudiaeth, gyda bygwth ei losgi yn fyw pe dychwelai. Treuliodd weddill ei oes, 20 mlynedd, yn alltud, yn gwasanaethu'r awen, yn ofidus a blin ei galon ac o hyd yn hiraethu am hen wlad ei dadau. Rhoddodd ei brofedigaethau ddyfnder teimlad a difrifoldeb yspryd iddo, lle'r oedd ei galon eisoes wedi ei deffroi er yn fore gan allu swyngyfarol cariad at Beatrisia.

Yr oedd Dante a Beatrisia tua'r un oed, ac yn 1274 y cafodd efe yr olwg gyntaf arni ac y teimlodd beth yw swyn serch; yn ddeunaw y swynwyd ef drachefn gan brydferthwch yr olygfa; ac er nad oes sicrwydd iddi hi erioed wybod am ei deimladau ef, mae yn amlwg iddi brofi yn wir "Beatrisia," yn roddwr bendith iddo, a thrwyddo ef i bawb sydd yn caru pethau tecaf a thlysaf llenydd-

yddiaeth. Am dair blynedd ar ddeg —hyd ei marwolaeth anamserol yn 1290, bu ei marwol gariad yn ei dywys, a'i hyspryd anfarwol wedi'n yn puro gweddill ei oes ac yn dadguddio iddo ddirgeledigaethau'r byd hwnt i'r llen.

Yn 1291, fe briododd Gemma Donati, a bu iddynt bedwar o blant, tri bachgen ac un ferch, ac er nad aeth hi gydag ef i alltudiaeth nid oes un lle i feddwl na phrofodd hi'n wraig dda, nac i'r undeb fod yn ddim ond hapus. Yr oedd hi yn fyw yn 1332. Yn ddeunaw oed yr oedd Dante eisoes yn fardd, a phan gyhoeddwyd ei sonadau fe ddeallwyd ar unwaith fod bardd newydd ar y maes. Cyhoeddodd lawer yn ei oes mewn rhyddiaith a barddoniaeth; ond ei orchestwaith yw'r *Divina Commedia*, yn dair rhan—Annwn, Purdan a Pharadwys. Pwnc y gân hon, ac edrych arni yn llythyrenol, yw cyflwr eneidiau ar ol marw, fel mater o ffaith; fel alegori, y pwnc yw dyn, mor bell ag y mae, trwy haeddiant neu anhaeddiant, wedi gosod ei hunan yn agored i wobr neu gosp cyfiawnder.

Pan gofir fod Dante wedi marw cyn geni Copernic (1473—1543) fe ddeallir mai yn ol cynllun Ptolemi yr edrycha'r bardd ar y bydysawd—y ddaear yn ganolbwynt. Rhenir arwynebedd y ddaear yn ddwy—yr haner ddwyreiniol yn dir, a'r orllewinol yn ddwfr. Ar ganol y tir y mae Jerusalem ac yn unionsyth oddi tani y mae uffern, yn ffurfio'r craiddgyrch (*centre of gravity*). Ynys uchel fynyddig yw'r Purdan yn yr haner orllewinol a thonau'r môr yn golchi ei glanau. Yma y ceir gwared o'r saith pechod ac yr esgyna'r enaid i Baradwys y ddaear ar y copa, lle'r ymolcha yn afon Llethwy i ddileu'r adgof am bechod a thristwch y ddaear ac yr ŷf o ddyfroedd Eunoe i ddeffroir cof am yr hyn sydd dda. Uchlaw'r Purdan y mae'r naw nefoedd, a thu allan i'r rhai hyn y mae cartrefle Duw a'r saint.

Rhenir tair rhan y gân bob un i 33 o gânau bychain, gyda chyfeiriad at flynyddoedd bywyd daearol Crist. Yn ei grwydriadau fe gyll Dante ei ffordd yn nghanol gallt dywyll ac enfyn Beatrisia gysgod Fersil i'w gyfarwyddo a'i arwain drwy Uffern, Purdan a Pharadwys, lle y gedy Fersil ef i ofal Beatrisia, yn nghwmpeini yr hon y mae'n esgyn drwy y naw nefoedd hyd bresenoldeb y Tragwyddol. Dyna brif linellau'r Gân, cân sydd yn anhebyg i d lim a geir mewn barddoniaeth ddiweddar. Y mae ei phrydferthion yn aneirif, ac wedi eu gwasgar â llaw ddiarbed, mewn cymhariaethau tlysion a tharawiadol, desgrifiadau byw, a brasluniau o gyffroadau dyfnaf y galon ddynol. Y mae Dante yn rhagori yn y dosparth hwn o ddarluniaeth. Pa un bynag a fyddo yn desgrifio teimladau rhwygedig calon tad yn Ugolino, neu hunan-ymroddiad y gariadferch yn Francesca, neu ddylanwad toddeidiol swn cloch yr hwyr ar y morwr a'r pererin; pa un a fyddo'n paentio anobaith eneidiau colledig wedi cydgwrdd ar lan yr Acheron yn melldithio Duw a'u rhieni am roddi iddynt eu bodolaeth, neu ynte dristwch tynerach yr edifeiriol yn *chantio'r Miserere* ar eu taith drwy ororau'r Purdan—dengys yr un feistrolaeth ar y teimladau dynol, a'r un cynefindra a'r tannau hyny sydd yn crynu ddyfnaf yn nghalon dyn. Nid oes odid un bardd ond Shakespeare ellir ei gymharu a Dante yn hyn o beth.

Dyma'r bardd y mae Mr. Rees wedi ei droi allan mewn gwisg y gall y Cymro myfyrgar a deallus ei ddarllen a'i fwynhau. Ceidw'r cyfieithydd at fesur y gwreiddiol, ac mae'n bosibl y teimla'r darllenydd ef yn ddieithr ar y cyntaf, ond dalied ati gan geisio am y meddwl, ac wedi ymgynefino fe'i caiff yn rhedeg yn rhwydd ac esmwyth.

Ceir yma ragdraeth werthfawr gan Mr. T. Gwyn Jones, bardd cadeiriol 1903, os nad ydym yn camsynied; darluniau eglurhaol, tlws, gan Mr. J. Herbert Edwards, un o arlunwyr mwyaf gobeithiol Cymru; llyfryddiaeth gynwysfawr, gyda rhestr dda o

danysgrifwyr; a'r oll yn ffurfio cyfrol drwchus o ryw 500 tudalen. Mae'r papyr yn dda, y llythyren yn lân ac yn dlws. Gwnaeth yr argraffydd, y cysodydd, a'r rhwymydd bob un ei ran yn ganmoladwy, ac y maent wedi llwyddo i droi allan waith nad oes dim o'i well wedi ymddangos o'r Wasg Gymreig erioed. Teilynga'r gyfrol y lle gore ar fwrdd *drawing room* gore'r wlad.

Cymhellwn y llyfr yn wresog i sylw darllenwyr yr YR YMYFONYDD. Gellir ei gael oddiwrth y cyfleithydd, Mr. Daniel Rees, *Herald Office*, Caernarfon.

R.J.J.

ADRAN YR YSGOL SUL.

PARHAD.

CWMBACH. ARHOLWR—PARCH. D. J. WILLIAMS.

Cyfanrif 7.

Safon I.—Dosparth I.—Margretta Thomas, Maria Thomas, Anne Phœbe Evans, John Wm. Evans.

Safon I.—Dosparth II.—S. Arianwen Evans, Trevor Evans, D. Gwynfro Evans.

LLANBEDR. ARHOLWR—PARCH. D. EVANS, CRIBYN.

Cyfanrif 31.

Safon I.—Dosparth I.—*Emlyn Walter Price, *Evan Davies, *Enoch Davies, *Eve Davies, *John Parry, *Gwladys Evans, *John Walter Evans, *Evan D. Davies, *Gwilym Williams, *Joshua Evans, *Llywelyn Davies, *Stephen Parry, *Henry Williams, *Ben Davies, *Ernest Evans, *Willie Jones, *Blodwen Davies, *Rachel Anne Davies, *Sarah Davies, *Margaret Anne Davies, *Maggie Jenkins, *Delia Price, *Hannah Davies.

Safon II.—Dosparth I.—*Mary Anne Evans, *Lee Hannah Thomas, *Rachel Evans, *Anne Evans, *Mary Lloyd, *Thomas Davies, *Stanley Price.

Safon III.—Dosparth I.—Hannah Davies.

LLANDYSSUL. ARHOLWR—MR. J. R. THOMAS.

Cyfanrif 11.

Safon I.—Dosparth 1.—*Lizzie Jane Roberts, *Ellen Jones.

Safon II.—Dosparth I.—Margaret Thomas, Margaret Jones, Elizabeth Jones, Mary Davies, Margaret Davies, John Davies.

Safon III.—Dosparth I.—*Rachel Davies, *Gwladys Davies.

Safon IV.—Dosparth I.—Rachel Davies.

LLWYNRHYDOWEN. ARHOLWR—MR. T. G. THOMAS.

Cyfanrif 16.

Safon I.—Dosparth I.—*Maggie Griffiths, *Eliza Griffiths, *Mary Anne Lloyd, *Margaret Lloyd, *Mary Williams, *Hannah James, *Ellen James, *Jennie Jones, *Emily Williams, *Mary Anne Davies, *Eliza Jane Jones, *Annie Evans, *Hannah Davies.

Safon II.—Dosparth I.—Anne Davies, Jane Davies, May Evans.

RHYDYGWIN. ARHOLWR—MR. J. D. JONES.

Cyfanrif 29.

Safon I.—Dosparth I.—*Ellen Mary Lloyd, *Sally M. Davies, *Ann J. Morgan, *Hannah M. Jones, *Lloyd Owen Davies, *David *Jones, John Jones, *Evan Jones, *John Jenkins, *Daniel Saunders-Davies, Elizabeth S. Davies, Gwladys S. Davies.

Safon II.—Dosparth I.—*Jenkin Samuel Davies, *T. L. Jones, *Isaac D. Jones, *T. W. Jones, *Johnny Lloyd, *Henry Owen, *Lizzie A. Davies, *Mary Ann Jenkins, Thomas Lloyd, Abel O. Evans, Joseph Jones, Gwilym S. Davies, Sarah Jenkins, Mary Ann Jones.

Safon II.—Dosparth II.—Elizabeth Williams, Anne S. Davies, Gwen Jones.

SYCHBANT. ARHOLWR—MR. D. R. JONES.

Cyfanrif 9.

Safon I.—Dosparth I.—Hannah Davies.

Safon I.—Dosbarth II.—Lizzie Davies.

Safon II.—Dosparth I.—*Evan James Richards, *James Davies, *David Tom Davies, *David Williams, *Evan Davies, *Anne Thomas, *Alice Thomas.

TREBANOS. ARHOLWR—PARCH. D. J. EVANS.

Cyfanrif 42.

Safon I.—Dosparth I.—*Lizzie Hannah Evans, *Gwenllian Morgan, *Mary Davies, *Winifred Morgan, *Dela Saunders, *Arthur Williams, *William R. Davies, *Willie Saunders, *Isaac Emlyn *Hopkin, Howell John Thomas, Sarah Saunders, Rachel Ann Morgan, Bessie Rock, Osgar Bowen, William S. Jones, Harry Williams, Tommy Saunders, Elizabeth Voden.

Safon I.—Dosparth II.—Isaiah Bevan, Marles Williams, Gwenie Voden, Mary Anne Voden.

Safon II.—Dosparth I.—*Elizabeth Hannah Hopkin, *Morfydd Williams, *Bessie Saunders, *Madeline Davies, *Margretta Bowen, *Hannah Lewis, *Lizzie Anne Jones, *Elzabeth Anne Hopkin, *Louisa Rock, *Bessie Rees, *Harriet Morgan, *Daniel Bowen, *Lewis W. Rees, *Willie Lewis, *Idris Williams, *William J. Bevan, *Benjamin Ivor Davies, *David Arthur Bowen.

Safon III.—Dosparth I.—Rachel Anne Bowen, Elizabeth Bevan.

Dynoda * yr ymgeiswyr sydd wedi pasio gydag anrhydedd.

GWEINIDOG Y MYNYDD.

GAN TUDFATHAR.

XX.

'O gwyn ei fyd y neb nis gwyr
Am ferch fu'n flinder iddo—
Yn wir nis gwn yn sicr chwaith
Ai gwyn ei fyd ai peidio.'

Ceiriog.

I ba ddiben ceisio desgrifio teimladau Geraint Jones y dyddiau hyn? Onid adrodd yr hen, hen stori fai myned i fewn i ddirgelion ei freuddwydion y dydd, a'i felus-feddyliau yn yr hwyr pan yn gorwedd yn fyfyrgar ar draethell cwsg? Ac eto nid ymroddi i ddychmygion euraidd am y dyfodol, dyfodol llawn iechyd, a llwyddiant a serch yn unig a wnaeth. Rhy gysegredig yw'r ystafell sancteiddiolaf yn nghalon dyn da i'w thaflu yn agored i olwg y cyhoedd; yr ystafell o'r hon yr eheda'r weddi wirioneddol i fyny at Dad Cariad a Bodolaeth. Sanctaidd yw cysegr nesaf i mewn serch daearol ac ysprydol.

Ddydd neu ddau wedi derbyn llythyr Nwyfa, cafodd Geraint Jones lythyr arall, oddiwrth Ysgrifenydd Eglwys y Mynydd, yn cynwys amlygiad o ofid blaenoriaid yr Eglwys am eu hymddygiad byrbwyll mewn cysylltiad a'i ymadawiad o'u plith, ac yn diweddu drwy fynegiad o'u gobaith am ei gael yn ol eto i weinidogaethu arnynt fel Eglwys. O leiaf hyderent y caent y fraint o wrandaw arno yn pregethu eto y cyfle cyntaf a gai i ddod i waered o'r brif ddinas. Yn yr un dyddiau hefyd, drwy offerynoliaeth ei gyfaill ffyddlawn Mr. Graianwy cafodd wahoddiad cynes i fyned i bregethu am Sabbath i eglwys bwysig yn Ngogledd Lloegr, a derbyniodd y gwahoddiad yn ddibetrus. Gwnaeth ei wyneb gonest gwrol, ei agwedd ddifrifol ac eto synwyrol, a'i draddodiad sobr a dylanwadol, effaith nid bychan ar gynulleidfa o Saeson, er gwaethaf acen Gymreig y pregethwr ieuanc, a *respectability* anorfod llawer o bobl yr eglwys. Gadawodd y lle gyda dymuniadau pawb i'w weled yno'n fuan drachefn. '*Nothing to beat a Welshman for preaching, and he's one of the best of them,*' oedd sylw'r Sais digyffro arno. Gwr *matter-of-fact* yw'r Sais, i'w gymharu a'r Cymro: ond gwr o waelod lled dda yw, 'r ol cael gafael yn ei waelod.

O dan yr amgylchiadau teimlai Geraint mai dipyn yn rhy *dramatic* fyddai ei fynediad yn ol i Lwydfaen ar y pryd; ac yr oedd ganddo ormod o barch i deimladau teulu Sidney Howells i dynu llygad y cyhoedd yn fwy at achos gofidus y gwr ieuanc anffortunus hwn. Nid oedd gwanc ar Geraint i wneuthur gorymdaith fuddugoliaethus yn ol i'r golygfeydd lle y goddiweddasid ef gan gywilydd, er fod y cymylau erbyn hyn wedi llwyr ymgolli dros y gorwel. Ac eto yr oedd arno ddyhead am fyned yn ol yno, canys onid oedd pob bryn, a dyffryn a dôl yno yn gysegredig gan gofion am Nwyfa? Teimlai erbyn hyn fod pob anhawsder oedd rhyngddo a gwrthrych ei serch wedi ei symud, ac nad oedd ganddo ond aros yn amyneddgar enyd fer, a byddai Nwyfa yn eiddo iddo fyth! Yr oedd wedi claddu cofion y dydd byth-gofiadwy hwnw yn ngorsaf Graianwy Junction, y dydd hwnw y cafodd Nwyfa mor agos i'w galon guredig, a'r dydd y disymwth wahanwyd hwynt fel y tybiai, am byth. Ond yn awr adgyfododd y cofion am y dydd melus-chwerw hwn yn fyrdd yn ei fynwes, fel y deffry blodau'r gwanwyn dan oleu heulwen Ebrill. O'r blaen cadwodd flodau ei gofion obry'n nyfnderau eithaf ei galon, gan

wybod os mai gadael iddynt godi pen a wnai, y deuai siomiant fel rhew-wynt y dwyrain i'w difa yn eu blagur. Ond, yn awr, wele obaith yn goleuo, a'r hyn a dybiai oedd wedi marw yn y gauaf yn codi'n wyrddlas a byw fel ar foreu o Fai.

A beth oedd hanes Nwyfa y dyddiau hyn? Ychydig eiriau a symia i fyny ei stori hi. Wedi ychydig ymohebu rhwng ei thad ag awdurdodau y Coleg yn Abertaf, dychwelodd Nwyfa yno i gymeryd y gweddill o'i arholiadau am ei B.A. Er ei bod wedi rhoddi i fyny'r gobaith o gael dychwelyd at ei hefrydiaeth, eto nis gadawsai i'w llyfrau orphwys yn segur ar y silff. Carai Nwyfa addysg er ei fwyn ei hun, a threuliodd rai oriau bob dydd gyda'i hoff lyfrau drwy gydol y gauaf. Nid gweithio yn unig er mwyn pasio arholiadau roddai bleser i Nwyfa: nid y gradd o B.A. ond yr ymwybyddiaeth o ddiwylliant meddyliol, a'r wybodaeth o'i gallu fel canlyniad i wneud ei ffordd ei hun yn y byd, oedd nod ei huchelgais. A dyma'r unig nod sydd yn cymhell i lwyddiant. Unwaith eto cafodd ei hun yn neuaddau eang yr hen adeilad a garai mor fawr, a'i llyfrau dan ei braich, a rhai o'i hen gyfeillesau yn gwmni iddi. Melus eto anadlu awyr rydd y Coleg ac er mor gysglyd llawer o'r darlithwyr eto teimlai ysprydoliaeth newydd yn disgyn iddi oddiar eu gwefusau. Yr oedd amgylchiadau wedi ei gwneud yn sobrach nag oedd chwe' mis cynt, ac yr oedd yn edrych yn llawer mwy na haner blwydd yn hynach nag oedd pan gadawsai'r Coleg. Ac eto melus oedd bod yn ol gyda'r hen wynebau yn yr hen amgylchoedd. A pha fan wedi'r oll fel Abertaf, lle y cyferfydd mynydd a mor, natur a chelfyddyd, gwyddor y presenol a llenyddiaeth y cynoesoedd, dyheadau anelwig y dyfodol pell, a gorchestgampau meistr-feddyliau oesau clasurol y byd? Yma, ar fin y mor, eistedd Duwies Prydferthwch yn ei sandalau cwrel; yma, wrth droed y mynyddau oesol llygad-dremia Duwies Doethineb dros y tonau; ac yma hefyd y lledorwedda Ceridwen felus Gymreig, ochr yn ochr a duwiesau Parnassus, a breuddwydion dyfodol Cymru yn llanw ei llygad tyner, yma ar greigiog lan,

> 'Lle'r rhua'r dòn dragwyddol ar y traeth,'

ar gareg las yn nghanol y tywod, a si y dòn yn disgyn yn rhe'laidd ar ei chlust, treuliodd Nwyfa eto lawer awr o wanwyn a haf gyda'i hoff awduron. Un o enethod yr awyr agored oedd Nwyfa—*an open-air maiden*, ys dywed y Sais, ac ar ei holl efrydiaeth yr oedd delwau bryn a thòn, a chraig, a chragen, ac anadlai ei hoff feirdd anadl blodau'r glanau, ac heli'r môr, ac anadl hyfryd rhybanau'r gwymon a dyfai wrth ei thraed. Mor aml ag y medrai, yr awyr las, gorwel llwyd-oleu'r weilgi, a chribyn porphor y mynyddau yn y pellder oeddynt derfynau myfyrgell Nwyfa; a'r haul oedd y lamp yn ngoleuni'r hwn yr efrydai fwyaf. Ac nid oedd arogl olew'r canol nos ar ei dysgeidiaeth hi, na lliw llwyd y lamp neu'r nwy ar ei dwyrudd. Gwyn fyd na fai rhagor yn dilyn ei hesiampl.

Wedi dychweliad Nwyfa i'r Coleg, ai ar Homer y myfyriai yn y boreu, a Virgil y prydnawn, ac Horace yn yr hwyr? Neu pan yn rhodio min y traeth, ai syn-fyfyrio ar ryfeddodau natur a wnai—natur o fynydd i fôr? Neu ai meddwl a syllu ar gywreinwaith rhyw gragen berlog a wnai, gan ei gosod yn ei chlust a gwrando ar ganiadaeth gyfrin y môr? Gwn fod ei chyfeillesau wedi sylwi fod tuedd fyfyrgar a breuddwydiol wedi gafaelyd ynddi yn ddiweddar. Cyfrifai ei chymdeithesau Seisnig hi fel enghraifft o'r natur leddf, freuddwydiol, farddonol Gymreig, yr hoffir son cymaint am dani yn mhob llenyddiaeth ar y Celt. Eto, os fyth y gwelir geneth un ar hugain oed yn troi yn drist a myfyrgar, yn hoffi cwmni ei dychmygion ei hun, gellir penderfynu fod Duw serch wedi taenu ei fantell hud drosti; a pheri iddi freuddwydio breuddwydion dynes,

breuddwyd serch. Os gwelir dynes yn adeiladu castell gorwych yn yr awyr, pur sicr mai arglwydd y castell yw prif wrthrych darfelydd ei bron ieuanc a thyner. Ac yn nghanol myfyrion Nwyfa yn nghysgodion mynyddau Abertaf, yn swn rhuadau'r wendon anesmwyth, cymerai ffansi ei bwyntil cyflym, gan ddarlunio gwyneb bachgen hardd a gwrol o flaen ei llygaid, a churai ei chalon yn gynt !

(*I w barhau.*)

CONGL YR AWEN.

ENGLYNION O GLOD I'R PARCH. DAVID REES, AR EI YMADAWIAD A THYLORSTOWN A'R RHONDDA I PENYBONT-AR-OGWR, EBRILL 1, 1904.

Hen orchwyl yw rhoi anerchiad—hyfrydwch
Gwir frawdol o'n teimlad ;
Ein Rees sydd ledmerydd mâd,
A chyfaill pob dyrchafiad.

Drwy ein sêl gwnawn arddel urddas—a bri
Fo i'r brawd yw'n pwrpas :
Ag haeddawl anrheg addas,
I abl wr ro'wn gyda blas.

Pwy a roddai bereiddiach—neu goethus
Bregethau rhagorach ?
Ni fu son am ffyddlonach
Oddifewn y Rhondda Fach.

Hir alaeth 'nol ffarwelio—yn hollawl,
Nis gellir anghofio :
Drwy "Y Drefn" caiff dd'od rhyw dro
'N ddiatal i'n cwrdd eto.

Yn ammodol cyn amadaw—a *goodbye*
I gadben mor hylaw ;
Pleser fydd rhyw ddydd a ddaw,
Hudolus ysgwyd dwylaw.

Oes hir o wir gysuron—fo iddo
Fyw'n foddus ei galon ;
A thrwy nerth bendith yr Iôn
Mwy cynydd fo'i amcanion.

PEIRIANYDD.

PRIODAS.

Yn nghapel Grove Street, Lerpwl, gan y Parch. D. Adams, B.A., unwyd mewn glân briodas, Mr. John Davies, Park Street, Manchester, (mab y diweddar Dr. Lewis Davies, gynt o Gwmdyllest a Mrs. Davies, Cottage, Rhydowen) â Miss M. J. Thomas, Selborne Street, Lerpwl.

MARWOFION.

EBRILL 20, yn 4 mis oed, Thomas, anwyl blentyn Thomas ac Elizabeth Jones, Lone Cottage, Llanwenog. Claddwyd yn mynwent Alltyplacca, a chyflawnwyd y gwasanaeth ar yr achlysur gan y gweinidog. "Yspryd yr Arglwydd a chwythodd arno."

MAI 12, John Owen, Plasnewydd, Ram, ger Llanbedr, yn 75 mlwydd oed. Gadawodd mewn galar ar ei ol wraig a dau o blant. Claddwyd ei weddillion yn mynwent Brondeifi. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan weinidog y lle.

MAI 26, John Evans, Llewelyn Street, Pentre Rhondda, yn 55 mlwydd oed. Genedigol o blwyf Llandyssul ydoedd yr ymadawedig, a'i rieni yn byw yn Llwyngwragedd. Symudodd i'r ardal hon er's tua 30 mlynedd yn ol. Claddwydd ei weddillion marwol yn nghladdfa gyhoeddus Trealaw. Daeth torf barchus i'w hebrwng i dŷ ei hir gartref. Gwasanaethwyd gan y Parch. T. Davies, Moriah, Pentre. Dioddefodd gystudd hir yn dawel ac amyneddgar. Bydded i farnwr y weddw a Thad yr amddifaid ofalu am y rhai sydd ar ol.

MAI 28, ar ol cystudd hir, yn 73 oed, John Evans, Brighton Cottage, Cribyn. Claddwyd yn mynwent y Cribyn, a gwasanaethwyd ar yr achlysur yn ol ei ddymuniad gan y Parch. J. Davies, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. Lewis Williams. Yr oedd yr angladd yn lluosog iawn. Gadawodd yr ymadawedig weddw, dwy ferch, a nifer fawr o ŵyrion, yn nghyd a brawd, a dwy chwaer, i alaru ar ei ol. Nerth a gaffont i ymddiried yn yr hwn sydd yn peru fod pob peth er daioni i'r rhai sydd yn ei garu ef.

MAI 30, Anne, merch Anne Davies a'r diweddar Daniel Davies, Three Horse Shoe, Cribyn, yn 14 oed. Diniweidrwydd a lledneisrwydd yspryd oedd nodweddion amlycaf bywyd Annie, ac anwyl ydoedd i bawb yn yr ardal. Chwith iawn genym ei cholli. Bydd ei lle yn wag ar yr aelwyd, yn yr Ysgol Sul a'r addoliad, ac yn y pentref. Cydymdeimlir yn ddwfn a'i mham a'r teulu oll yn eu galar ar ei hol. Tad y weddw a'r amddifaid a'u cysuro. Claddwyd ei gweddillion yn mynwent y Cribyn y dydd iau canlynol. Gweinyddwyd gan weinidog y lle; ac ar lan y bedd gan y Parch. Lewis Williams.

MEHEFIN 4, ar ol hir gystudd, yr hwn a oddefwyd yn dawel ac amyneddgar, Mary Anne, merch ac unig blentyn Evan Jones, *Contractor*, 13, Cemetery Road, Aberdare, yn 37

oed. Gedy yr ymadawedig hiraeth mawr ar ei hol. Yr oedd yn anwyl iawn gartref ac mewn parch gan ei chydnabod yn mhob man. Daliodd gysylltiad agos a'r achos yn yr Hen Dŷ Cwrdd er yn blentyn. Y Mercher canlynol, sef dydd yr angladd, gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parchn. D. J. Williams a J. Hathren Davies, ac ar lan y bedd yn y Cemetery gan y Parchn. D. Rhoslwyn Davies, R. J. Jones, a J. Grawys Jones (A.). Gwelsom y gweinidogion canlynol hefyd yn yr angladd: Parchn. J. P. Kane, D. Jones (A.) ewythr i'r ymadawedig, J. D. Rees (A.), W. Thomas (B.), Jacob Thomas (A.), Tabor, Cefncoed.

"Mae llais yn dod o'r nefoedd
A chysur ynddo sydd,
Aiff nos yn fuan heibio
Daw goleu gyda'r dydd.
Rhof iddo Ef fy yspryd,
Fy nerth a'm tarian yw—
Terfyna ofn yn angau,
A hwnt nid oes ond—DUW."

MEHEFIN 6, yn 18 mlwydd oed, Margaret, merch henaf John a Mary Jones, Pencefn, ger Tregaron. Claddwyd yn nghladdfa Tregaron; a chyflawnwyd y gwasanaeth ar yr achlysur yn y tŷ gan y Parch. J. Davies, Alltyplacca, a gorphenwyd wrth y drws gan y Parch. Morgan Evans, Tregaron, yr hwn a roddodd dystiolaeth i ragoriaethau cymeriad yr ymadawedig. Yr oedd lluosogrwydd yr angladd yn ddangoseg amlwg o'r parch a deimlid tuag ati, a'r cydymdeimlad a'r teulu yn eu hymddifadrwydd prudd. Nerth a gaffont oll i alaru'n gymedrol ac i ymbarodi i gael ailgyfarfyddiad dedwydd yn y wlad o'r hon nid oes ymadael.

MEHEFIN 12, yn 54 mlwydd oed, Hannah Evans, 10, Pontshan. Y dydd Mercher canlynol claddwyd yr hyn oedd farwol o honi yn ngladdfa Pantdefaid, pryd y gwasanaethwyd gan y gweinidog.

MANION AC HANESION.

CILIAU.—Cynaliodd Ysgolion Sul Ciliau, Cwmsychbant, Capelybryn, Cribyn a Rhydygwin eu cymanfa flynyddol eleni yn y lle uchod ar y 27ain o Fai. Arholwyd y gwahanol ysgolion gan y Parchn. J. Davies, David Evans, a Lewis Williams. Yr oedd gwedd lewyrchus ar y gwahanol ysgolion. Diolch am ffyddlondeb eu haelodau. Duw a fendithio eu hymdrechion i wneud ein hysgolion yn fwy llewyrchus eto, ac yn allu er daioni yn ein plith.

PENTRE.—Sul a Llun, Mai 15 a'r 16, cynaliodd yr eglwys uchod ei chyfarfodydd blynyddol. Y pregethwyr eleni oeddynt y Parchn. T. J. Jenkins, Gellionen; a J. P. Kane, Dowlais. Yr oedd yr hin yn desog, y cynulliadau i fyny a'n disgwyliadau, a'r pregethwyr yn eu hwyliau goreu. Hyderwn na ddiflana y dylanwad bywiol ac iachus deimlwyd wrth wrando ar eu cenadwri; yn hytrach, gadawn iddo i ddyfnhau ac i ymeangu nes ein symbylu i fwy o weithgarwch a brwdfrydedd dros ein hachos a'n crefydd.

CYFLWYNO TYSTEB.—Mae Mr. Thomas Davies, *Stonecutter*, Talsarn, yn adnabyddus i'r rhan fwyaf o Undodiaid Ceredigion. Bu Mr. Davies yn byw am flynyddau yn Llanybyther, a'r pryd hwnw efe oedd

arweinydd y gân yn Alltyplacca. Mae wedi symud er's rhai blynyddoedd o'r lle uchod, ac o herwydd pellder y ffordd sydd rhyngddo ag un o'n capelau Undodaidd y mae'n anghyfleus iddo i addoli gyda'r enwad y dalia i gyfrif ei hun yn aelod o hono; ond gwelir ef weithiau yn addoli yn nghapel Rhydygwin. Mae Mr. Davies yn fywiog gyda'r canu yn Nyffryn Talsarn eto, a chanddo "gôr mawr" o dan ei arweiniad. Mae trigolion y lle yn ystyried fod dyfodiad Mr. Davies i'r gymydogaeth wedi bod yn gaffaeliad mawr, ac i ddangos eu gwerthfawrogiad o hono, maent yn ddiweddar wedi gwneud tysteb anrhydeddus iddo. Nos Wener, Mai 14, yn Ysgoldy Bwlchyllan, cynaliwyd cyfarfod cyhoeddus er cyflwyno y dysteb. Gwnaed hyn ar ran y trigolion gan y Parch. E. Williams, Nantcwnlle; yr oedd yn gynwysedig o gadwen aur hardd a thlws aur crogedig wrthi, gyda'r gerf-ysgrif ganlynol: "Tysteb i Mr. Thomas Davies fel arweinydd Côr Dyffryn Aeron, Mai 18, 1904." Heblaw hyn rhoddwyd iddo godaid sylweddol o aur. Diolchodd Mr. Davies i'r bobl am eu caredigrwydd a'u dymuniadau da, yn ei ddull arferol ac effeithiol ei hun.

PONTYPRIDD.—Cynhelir cyfarfodydd sefydlu Mr. Simon Jones, B.A., fel gweinidog yr eglwys yn Mhontypridd, Gorph. 28, pryd y disgwylir y rhai canlynol yn mhlith ereill i gymeryd rhan: y Prifathraw Gordon, M.A., Parchn. J. E. Manning, M.A., R. J. Jones, M.A., W. James, B.A., J.P., W. Copeland Bowie, J. M. Lloyd Thomas, Mr. J. Carslake Thompson, Caerdydd, a Mr. L. N. Williams, Aberdar. Cymer y gwasanaeth cyntaf le yn y prydnawn a'r olaf yn yr hwyr. Rhoddir croesaw calonog gan yr eglwys i gyfeillion a dieithriaid i'r cyfarfodydd neillduol hyn.

KIDDERMINSTER.—Yr ydym wedi crybwyll o dro i dro yn y golofn hon am lwyddiant Cymry yn y Pwlpud Undodaidd yn Lloegr, ac am y lle pwysig lenwir ganddynt yn y cylch hwnw. Y mae yn bleser genym y mis hwn i gofnodi fod y Parch. E. D. Priestley Evans (mab y diweddar Barch. Owen Evans, Cefncoedycymmer) wedi derbyn galwad i Bury, yn Lancashire. Mae Mr. Evans wedi bod yn llafurio yn llwyddianus iawn am bedair blynedd ar ddeg yn Kidderminster, a deallwn oddiwrth y *Christian Life* fod y cyfeillion yno wedi gwneud ymdrech cgniol er ei rwystro i ymadael. Yr un llwyddiant a ddilyno ei ymdrechion eto yn y cylch pwysig y mae wedi ei alw iddo.

CYMANAFA GERDDOROL CEREDIGION.—Un o'r ddyddiau arbenig yr edrychir yn mlaen ato gan eglwysi Ceredigion ydyw diwrnod y gymanfa ganu. Cynaliwyd hi eleni ar yr 8fed o Fehefin, yn Llanbedr, yn Soar, capel yr Anibynwyr, pryd yr ymgasglodd torf enfawr, y rhai ddaethant o'r tair eglwys ar ddeg gynhwysa yr undeb. Llywydd y boreu ydoedd Mr. D. Hughes, Rhydygwin, a'r prydnawn y Parch. W. James, B.A., Llandyssul, a'r arweinydd ydoedd y Parch. D. Evans, Cwmbach. Rhag ofn syrthio o honom i "amryfusedd cadarn" ni ddywedwn ond yn unig fod pobpeth wedi pasio mor hwylus ag ydoedd modd.

[Disgwyliasom hyd y fynud olaf am adroddiad o'r uchod ond pan ar fyned i'r wasg ni ddaeth yr un i law. —GOL.]

CAPELYGROES.—Mai 16eg cyfarfu Ysgolion Sul Caeronen, Brondeifi, Alltyplacca, a Chapelygroes yn y capel uchod, i gynal eu cymanfa flynyddol. Am 10 yn y boreu, dechreuwyd yr addoliad trwy ddarllen a gweddio; ac adroddodd Capelygroes a Chaeronen ranau o'r Ysgrythyr, y rhai a holwyd gan y Parch. J. Davies. Wedi cyfranogi o'r ymborth a ddarparesid mor helaeth ar eu cyfer, gan eglwys Capelygroes, dechreuwyd gwasanaeth y prydnawn am ddau o'r gloch. Adroddodd ysgolion Brondeifi ag Alltyplacca ranau o'r Ysgrythyr. Holwyd y blaenaf gan y Parch. R. C. Jones a'r olaf gan y Parch. D. Evans. Cymanfa lwydd-

ianus iawn. Pregethwyd am 6 i gynulleidfa dda gan y Parchn. R. C. Jones a J. Davies.

GALWAD.—Da genym allu llongyfarch y Parch. E. E. Jenkins, gynt gweinidog Capelygroes, ond yn bresenol yn gynorthwywr i'r Parch. J. C. Street yn Sheffield, ar ei waith yn derbyn galwad oddiwrth yr eglwys yn Walmsey, swydd Lancaster. Dymunwn iddo lwyddiant mawr yn ei faes newydd.

DERBYNIADAU Y GYMDEITHAS—Parhad.—Aberystwyth, 8s. 3c.; Alltyplacca, 1*l.* 0s. 8c.; Capelybryn, 17s.; Sychbant, 7s.; Parch. J. Davies, 10s.; Parch. R. C. Jones, 5s.; Trebanos a Gellionen, 1*l.*; Parch. G. Eyre Evans, 1s.; Parch. E. Ceredig Jones, M.A., 10s. 6c.; Miss Davies, Salisbury Road, Caerdydd, 5s.; Cefncoed, 1*l*; Capelyfadfa, 1*l.* 1s.; D. Davies, Gellionen, 5s.; Ciliau, 11s. 6c.; Parch. Lewis Williams, 2s. 6c.; Dowlais, 10s; Parch. J. P. Kane, 2s. 6c.; John Jones, Dowlais, 2s. 6c.; John Lewis, 2s. 6c.; Miss Lewis, 2s. 6c.; Cwmbach, 12s.; Capelygroes, 1*l.*; Parch. D. Evans, Cribyn, 5s.; Hen Dy Cwrdd Aberdar, 18s. 7c.; D. Eiddil Jones, Cefncoed, 10s.; Cribyn, 18s. 9c.; Pentre Rhondda, 10s.; Parch. Lloyd Jones, Lerpwl, 10s.; J. Edward Evans, Llundain, 2s. 6c.; Parch. J. Evans, B.A., Bolton, 2/6; Brondeifi, 1*l.* 2s.; Caeronen, 12s. 6c.; Mrs. Davies, Trebanne, 5s.; Mrs. Davies, Wern, 5s.; Cwrdd Chwarterol Pantdefaid, Hydref, 1903, 3*l.* 9s. 3c.; W. James, Brynhyfryd, 1*l.* 1s.; J. Evans, Cyfreithiwr, Llandyssul, 1*l.* 1s.; T. Thomas, Cyfreithiwr, eto, 5s.; Graig, Llandyssul, 1*l.* 10s.; Parch. T. Arthur Thomas, 5s.; Pantdefaid, 1*l.* 6s.

TRYSORFA ADEILADU BRONDEIFI.—Cydnabyddwyd eisoes, 1558*l.* 9s. 6c.; Mrs. Jones, Caerfoel, Cribyn, 5s.; David Evans, Cribyn Shop, eto, 5s.; Martha Davies, Bryn, eto, 5s.; Evan Jenkins, Ty'nberth, eto, 5s.; Stephen Jones, Bryngoleu, eto, 5s.; Mrs. Evans, Felinban, Llanwnen, 5s.; Wm. Jones, Blaenwaunisaf, eto, 5s.; Blaenwaunganol, eto, 5s.; Wm. Jones, Brynreglwys, Llanwenog, 5s.; David Richards, Sychbant, eto, 5s.; Thomas Thomas, Pantmeddyg, eto, 5s.; Griffith Jones, Brynllefrith, eto, 5s.; E. Thomas, Abernant, eto, 10s.; Thomas Bowen, Maesyfelin Factory, eto, 5s.; E. Thomas, Graig, Talgareg, 5s.; Thomas Jones, Henbant, eto, 10s.; Mrs. Williams, Maespwll, eto, 10s.; Mr. and Mrs. Thomas, Green Grove, eto, 5s.; T. Davies, Crugyreryrisaf, eto, 5s.; T. Jones, Rhydlydan, eto, 5s.; Mrs. Thomas, Pantcoch Villa, eto, 6s.; Mr. & Mrs Thomas, Fadfa, eto, 5s.; Thomas Thomas, Crugeryr Factory, eto, 5s.; Misses Davidson, Belfast, 10s.; Mr. and Mrs. Saunders, Brighton, 10s.; David Leonard, Bryngranod, New Court, 5s.; W. Evans, Court Farm, eto, 10s.; D. Jones, Alltgoch, eto, 7s. 6c.; Thos. Evans, Watchmaker, Lampeter, 5s.; J. Davies, Coal Merchant, eto, 5s.; Mr. Whitworth, N.P. Bank, eto, 5s.; D. J. Jones, Broniestyn, Aberdar (2nd don.), 10s.; Jno. Lloyd, Gwargate, Pencarreg, 5s.; J. Thomas, Bryn Farm, Llanllwni, 5s.; Miss A. Edwards, Cwmcanol, nr. Lampeter, 5s.; D. Davies, Brynhyfryd, Talsarn, 5s.; T. Jenkins, Llechwedd-deriuchaf, Llanwnen, 10s.; T. Jones, Penrallt-newydd, eto, 10s.; Mrs. Davies, Man-ar-deifi, eto, 5s.; John Evans, Llwynbedw, eto, 5s.; D. Evans, eto, eto, 5s.; D. Thomas, Llanfechan, eto., 5s.; Mrs. Lloyd, Lletyrwenol, 10s.; Tom Evans, Lowtre, 5s.; T. Jones, Coedlanaufach, 5s.; Rev. J. Tyssul Davies, B.A., Chatham, 7s.6c.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

Awarded a
Diploma of Merit of the
First Class for
Knowledge of Tailoring
and Skill in Cutting
by
T. D. Humphreys, M.A.,
Ph.D. ;
and Two Years Cutting
at
Lush's, Pontypridd.

W. JONES,

Civil, Military, & Clerical Tailor,

Hatter, & Gent's Mercer,

LINCOLN HOUSE,

LLANDYSSUL.

We are well prepared for Autumn and Winter with a Select

Stock of Overcoats, Rainproof Coats & Mackintoshes

In all sizes and patterns.

Prices : 10/-, 12/6, 15/-, 20/-, 25/-, 30/-, and upwards.

LLANDYSSUL COUNTY SCHOOL

(FOR BOYS AND GIRLS).

Head Master: WILLIAM LEWIS, M.A., Cantab.
Late Foundation Scholar and Prizeman of Queens' College, Cambridge; Wrangler 1890.

MISTRESSES :
Miss S. A. Jones, C.M. ; Miss Myfanwy Jones, B.A., Honours, Wales.

Classics and Modern Languages : J. Keble Hudson, M.A. (Oxon.).
Late Open Classical Scholar of Wadham College Oxford ; 1st Class in Lit. Hum., 1890.

Science : T. J. Evans, B.A., (Oxon.).
Late Scholar of Jesus College, Oxford ; Honours in Natural Science ; Naples Research Scholar of the University of Oxford ; Inter B.Sc., Lond,

Drawing : Wm. Jones, A.R.C.A., (Lond.), of the Carmarthen School of Art

Instrumental Music : Miss Delia Williams, L.L.C.M.

Vocal Music : Rev. T. Arthur Thomas.

Laundry and Cookery : Miss E. W. Williams.
First Class Diplomas in Laundry and Cookery

This year's successes : 4 London Matriculation (1st Div.), 2 Rendel Scholarships, 2 U.C.W. do 1 County do., 1 Agricultural do U.C W., 1 Science Scholarship Lampeter College (Open). 2 King's Scholarships. Pupils of this School are now holding Scholarships at Oxford Aberystwyth and Lampeter to the value of £881.

Tuition Fee : £1 per Term or £3 per Annum. Music (Pianoforte) £1 1s. per Term.

Thos. Jones & Son, Llandyssul,

Have the Largest Stock and Best Selection of

BOOTS AND SHOES

In the Town.

Men's from 3/6 to 17/6; Ladies' and Children's from 1/11 to 12/6.

Sole Agents for the well-known

HOLD-FAST BRAND.

Thousands of Testimonials.

Hand-sewn made to measure. Repairs neatly done & cheap.

ROBIN THE NEW STARCH
Reckitt's Blue.
ZEBRA GRATE POLISH.

BEST MACHINE OIL 2s. per gallon.

ALBION, ⊗ LLANDYSSUL.

Bedsteads from 15s. to 45s.
Wool Beds, 15s. each.

GRIFFITH DAVIES.

Boots and Shoes of Every Description.

Splendid Value and Special Attention given to this Department.

BEST MACHINE OIL 2s. per gallon.

STEAM SAW MILLS, LAMPETER

DAVID DAVIES, TIMBER MERCHANT.

ALL KINDS OF FOREIGN TIMBER, DEALS, BOARDS, SKIRTINGS AND MOULDINGS.

SLATES, BRICKS, FLOOR TILES AND PIPES KEPT IN STOCK AT LOWEST PRICES.

Cambrian Factory, Lampeter.

DAVIES BROS.'
BOOTS & SHOES

ARE POPULAR IN ALL TOWNS.

WHOLESALE AND RETAIL.

NEW GARDEN & AGRICULTURAL SEEDS.

The Best Varieties. Proved and Tested for Growth & Quality.

Fruit Trees, Roses, Ornamental Trees & Shrubs.

Catalogues Free.

Funeral Wreaths, Crosses, Wedding Bouquets, &c.

HARRY COYSH, Nott Square, Carmarthen.

25 years practical experience in Home and Foreign Nurseries and Seed-growing Establishments.

A very Choice Selection of Artificial Wreaths always in Stock.

AT AMAETHWYR LLANDYSSUL AC ERAILL.

DYMUNA

Mr. Dd. James, Manchester House, New Quay

hysbysu ei fod WEDI AGOR CANGEN NEWYDD yn Llandyssul, gerllaw y Wilkes Head Hotel.

Y mae mewn llaw gyflawnder o

Beirianau Amaethyddol o bob math,

gan y gwneuthurwyr goreu, ac am brisiau rhesymol.

☞ Cyn prynu, taler ymweliad a'r lle.

Henry Thomas & Sons,

GENERAL DRAPERS,

'THE EMPORIUM,' 2, GUILDHALL SQUARE,

CARMARTHEN.

Ground Flour.

Linen, Cotton and Woollen Goods, Dresses, Silks, Hosiery, Gloves, Laces, Ribbons, Trimmings, and Gents' Mercery, Linoleums, Carpets, and General Furnishing.

Show Rooms.

The Largest and Most Selected Stock in the District of Mantles, Jackets, Costumes, Furs, Ladies' and Children's Underclothing of Every Description. A Grand Show of English and French Millinery.

☞ Dressmaking and Millinery Workrooms under Most Competent and Experienced Management.

TIMBER YARD & STEAM SAW MILLS

LLANDYSSUL.

The Llandyssul Timber & Slate Co.

LARGE STOCKS ALWAYS ON HAND OF

Red, Spruce and Yellow Pine Deals.
American Oak Coffin Planks and White Wood Boards.
Red and White Matched & Plain Boards.
Flooring & Walling Bricks, Socket Pipes, Junctions, Bends, &c.
Stone Sills and Flags.
Carnarvon Red Slates.

INSPECTION INVITED. ORDERS PROMPTLY EXECUTED.
SOLICITING YOUR ESTEEMED COMMANDS.

Farmers, you require Implements and Machinery for your work. Come for them where your interests are studied all the year. The best place in South Wales for

AGRICULTURAL IMPLEMENTS

IS

Eynon Thomas' Stores,

At Implement Works, Llanybyther,

AND DEPOTS AT LAMPETER & TREGARON MARKETS

Also a Large Assortment of all Kinds of Agricultural Implements of the Best Makes. Extra Fittings for all Makes. Every Article warranted to a full test. Any faulty parts will be replaced free.

I also manufacture on the Premises, Horse Gears, Cheese Presses, Curd Mills, Saw Mills. All kinds of Brasses, unfinished or finished, and Ordinary Repairs by Modern Machinery and Experienced Workmen.

Specialities—Water Wheels, Threshing Machines, Brass Work, Acetylene Gas and Electric Fittings.

Easiest Terms, Low Prices. Inspection and Enquiries Invited.

Note Address—

Eynon Thomas, Implement Works, Llanybyther.

LEONARD C. FARLEIGH, Llandyssul, S.W.,

The Largest Importer of Royal Daylight Petroleum in South West Wales.

Free Delivery per Tank Wagon within a Eight Mile Radius.

A Large Selection of Oil Storage Tanks in Stock, from 10 to 200 gallons.

Advantages of having Petroleum delivered per L. C. F.'s Tank Wagon: 1. The Petroleum delivered free per Tank Wagon, and measured into your Casks at your door. 2. No leakage or waste, and none of the heavy expense of carting from Station. 3. The Petroleum is of superior quality, as it comes direct from the ship's side to me. 4. Prices will show an advantage from what you would pay in Bristol.

Your inquiries would be esteemed by yours truly,

LEONARD C. FARLEIGH,

The largest Oil Importer in South West Wales.

Ben Evans & Co.'s

GREAT .. SUMMER **SALE**

NOW ON,

And will continue for 19 days only.

Important.

Customers who may be unable to visit the *Premises* during this *Great Sale*, are assured that *Letter Orders* will secure the same *Benefits* and *Attention* as if their *Purchases* were made in Person. . .

MATERIAL REDUCTIONS

In Every Department.

A Fine Opportunity for Profitable Purchasing.

The Whole of the Immense Stocks of

NEW, FASHIONABLE & SUBSTANTIAL GOODS

Will be marked at

Greatly Reduced Prices.

Illustrated Catalogue of Bargains

Post Free.

Ben Evans & Co. Ltd., Swansea.